# DINESYDD Mehefin

PAPUR CYMRAEG
CAERDYDD A'R CYLCH

1981

RHIF 78


# PRIF DDYN Y GORFFORAETH

RHEOLWR NEWYDD BBC CYMRU

Mae'r BBC wedi cyhoeddi fod Mr. Geraint Stanley Jones wedi ei benodi yn Rheolwr BBC Cymru i ddilyn Mr. Owen Edwards sydd bellach yn Gyfarwyddwr Sianel 4 Cymru.

Bu Mr. Jones, sy'n 45 oed, yn Bennaeth Rhaglenni BBC Cymru ers 1974 ac am y ddwy flynedd cyn hynny bu'n Bennaeth Rhaglenni Cynorthwyol. Treuliodd nifer o flynyddoedd gydag Uned 'Heddiw' ac yn ystod y cyfnod 1965 hyd 1972 cynhyrchodd nifer o raglenni i rwydweithiau BBC1 a BBC2, megis 'Glory, Glory', 'Poems and Pints', 'The Singing Train' a rhaglen ddogfen 'The Day Seemed so Good' am bedwar o fechgyn a aeth ar goll yn Eryri tra'n cymryd prawf Cyn-llun Dug Caeredin.

Yn ystod ei gyfnod fel Pennaeth Rhaglenni bu'n gyfrifol am sefydlu ac ehangu Radio Cymru a Radio Wales. Bu'n gyfrifol hefyd am yr ehangu a welwyd yng nghyfraniad Cymru i rwydweithiau BBC1 a BBC2 - megis y ddrama gyfres 'The Life and Times of David Lloyd George'.

Bydd Mr. Jones yn wynebu cyfnod o ehangu pellach gyda cychwyn Sianel 4 Cymru yn Hydref 1982 pan fydd BBC Cymru yn cynyddu cyfanswm ei rhaglenni Cymraeg.

Gan y bu yn Rheolwr dros-dro BBC Cymru ers ymadawiad Owen Edwards bydd Mr. Jones yn cychwyn yn ei swydd newydd ar unwaith.

Mae Geraint Stanley Jones yn enedigol o Efail Isaf, ger Pontypridd. Cafodd ei addysg yn Ysgol Ramadeg Pontypridd a Choleg Prifysgol Cymru, Bangor. Mae'n briod a chanddo ddwy ferch.

Dymunwn yn dda iddo yn y gwaith o ysgogi'r syniadau a'r brwd-frydedd hwnnw. Os oes unrhyw syniadau gennych chi ynglŷn â rhaglenni'r gwasanaeth newydd hoffai Euryn Ogwen glywed oddi wrthych mor fuan ag sydd bosibl.



Geraint Stanley Jones
(Penodiad arall ar dud. 2)

## PRIFATHRAWON

Mae'r Dinesydd yn hapus iawn i longyfarch un prifathrawes ac un prifathro ar gael eu hapwyntio i'r ddwy ysgol Gymraeg newydd a fydd yn agor ym mis Medi. Apwyntiwyd Mrs. Glesni Whettleton yn brifathrawes i'r ysgol Gymraeg yn Llanishen (yng Nghefn Onn) a Mr. Elfan Jones yn brifathro i'r ysgol Gymraeg newydd yn Y Parade.

Mae gan y ddau ohonynt un peth yn gyffredin. Maent eisoes wedi cael y profiad o sefydlu ysgolion Cymraeg newydd. Cafodd Mrs. Whettleton sy'n byw yn Llysfaen y profiad o sefydlu Ysgol Iolo Morgannwg yn y Bont-faen ac mae ei llafur diwyd i'w weld yn y cynnydd cyson yn rhifau'r ysgol.

Cafodd Elfan Jones sy'n byw yng Nghyncoed y profiad o sefydlu Ysgol Santes Tudful ym Merthyr. Anghygoel fu'r tyfiant o dan lywodraeth Elfan a bydd yn gadael ysgol o dros 200 o blant ar ei ol. Mae'r ddau ohonynt bellach yn brifathrawon ar ysgolion sy mor agos i'w cartrefi fel eu bod yn gallu cerdded i'r ysgol bob dydd!

Dymuna'r Dinesydd bob bendith iddynt yn eu cylchoedd newydd. Mae hi'n adeg gyffrous iawn yn hanes addysg Gymraeg yma yn y brifddinas. Pwy fase'n meddwl ddeng mlynedd yn ôl y byddai gyda ni bump ysgol Gymraeg yn y brifddinas yn 1981.

Dalier ati er mwyn sicrhau pump arall o leiaf cyn 1991.

Gan y bydd tair ysgol Gymraeg Gynradd newydd ym mis Medi bydd angen tri enw hefyd. Os oes gan rywun syniadau beth am ysgrifennu at Y Golygydd yn awgrymu enwau. Mae'r enw Melin Gruffydd wedi cymryd ei le'n hyfryd erbyn hyn.

Ein Gohebydd Addysgol.

# LLYTHYRAU LEIC!

O'R POST

Anwyl Golygydd,

Fin reito i weud bo fi cael ffedup gan pobl syn complêno bo fi a bytis fi ddim yn sbîco Welsh reit. Nagw in mynd i roi up gan hyn lot yn longach, ocê? Os nag chi roi sics pêjus o iaith nin deall yn Dinesydd nymbar nesa fi a bytis fin dod rownd i sorto chi mâs, ocê?

Iorwerth ap Golpisto ap Peristalsis ap Cadwaladr,
2381, Heol De Wallguy,
Y Fro Normaneg,
Glanyrafon (Rifyrseid, leic),
Cedff.

Ha wyr olygyddion,

Canys wele ac o'r plegid ac oherwydd paham myfi a ysgrifennaf atoch ie wir gan ddywedyd megis fel pe bae yn hen bryd i bob Brython gwerth ei halen weithredu yn ddi-oed heb amheuaeth heb os heb flewyn ar dafod i garthu allan o'n plith y teyrnfradwyr erchyllion ysydd o hyd yn difwyno ein hannwyl aeg drwy amryfus gam-dreiglo ac echrydus ambriod-ddull. Dylid rhwygo allan eu tafodau modd na allont lygru awyr bur ein hoff ddinas a thorri eu dwylaw i ffwrdd fel na chaffont dreisio papur gwyryfol lân â'u hanhyfryd glytiaith sathredig. Och gwae ichabod pwy a saif gyda mi yn erbyn yr anwariaid hyn a'u bratiaith wneud? Llabyddier hwy! Llosger hwynt! Torrer hwynthwy yn ddarnau mân i'w cnoi a'u poeri allan!

Yr eiddoch gwedi digiaw yn ddirfawr,

Proffesswr Doctor Laramie de Tryc'hville,
Yr Athrofa er Astudio Astudiaethau Astud,
Y Trydydd Bin Sbwriel Tu Ol i Ddrws Cefn yr Old Arced,
Heol yr Eglwys, Caerdydd.

Annwyl Syr neu Fadam,

Ysgrifennaf hyn o lith wedi fy nhristáu yn fawr iawn oherwydd safon iaith y bobl ifainc heddiw. Ba ddiwrnod a minnau a'm hannwyl briod yn sefyll wrth arosfa'r tudgerbyd yn Heol Eglwys Fair, gwelsom fflyd o wyryfon ifainc yn cerdded fraich ym mraich â'i gilydd (onid â'i chilydd fyddai'n gywirach?) tuag at adeilad lle cynhelir dawnsfeydd anweddus liw nos. "Bydd yn ofalus", ebe un feinwen dlos wrth ei chyfeilles, "neu fe syrthi di ar dy *!!**." "Paid â becso", atebodd y rhiain brydweddol arall, "mae fy *!!** i yn ddigon caled".

Beth sy'n digwydd i'r eirfa gyfoethog a'r priod-ddulliau bendigedig a fu gynt yn rhan naturiol o'n hiaith? A minnau'n grwt bach mewn trowsus cwta, "cwympo ar fy ??*!!*" fyddwn i bob amser.

Gomer Tregaskys,
397 Heol Nashville,
Sblot, Caerdydd.

# Y CALENDR

Mehefin

Gwener, 12, Noson Gymdeithasol Clwb Cymraeg Caerdydd gyda Hywel Gwynfryn, Tebot Piws a Mynediad am Ddim yng Nghanolfan Tre Bute (i'w gadarnhau).

Mawrth 16, Dawns gyda Geraint Jarman yn y Clwb Trydan dan nawdd Cymdeithas Clwb Cymraeg Caerdydd.

17-18 Mehefin, Theatr Bute, 7.30. Myfyrwyr Coleg Cerdd a Drama : Cyflwyniad Cymraeg o 'Saved' gan Edward Bond. Mynediad am ddim ond defnyddiol rhoi gwybod i Annes Gruffydd yn y Coleg os ydych am fynd. Cynhyrchiad cwbl anaddas i blant.

Sadwrn, 20, FFAIR HAF YSGOL MELIN GRUFFYDD, yn yr ysgol.

Sadwrn, 27, FFAIR HAF YSGOL GLANTAF, yn yr ysgol, 2.00 o'r gloch.

Gorffennaf

Iau, 2, 7.30 p.m. NOSON o GAWS A GWIN a BARDDONIAETH er budd Gŵyl Cerdd Dant Caerdydd. Yn Ysgol Glantaf. Tocynnau £1.

# PENODI EURYN



EURYN OGWEN WILLIAMS - Golygydd Rhaglenni Sianel 4 Cymru.

Penodwyd Euryn Ogwen Williams, cynhyrchydd teledu 38 oed o'r Barri, yn Olygydd Rhaglenni Sianel 4 Cymru ac yn ddirprwy i'r Cyfarwyddwr, Mr. Owen Edwards. Brodor o Benmachno, Gwynedd, yw Euryn Ogwen a chafodd ei fagu yno ac ym mhentref Coed-llai ger yr Wyddgrug. Bu'n fyfyriwr yng Ngholeg Prifysgol Gogledd Cymru Bangor, nifer o erthyglau a straeon byrion mewn cylchgronau Cymraeg. Mae'n ddiacon ac athro Ysgol Sul yn Eglwys Annibynnol Gymraeg y Barri. Ei briod yw Jenny Ogwen ac mae ganddynt ddau o blant. Bydd yn dechrau ar ei waith gyda Sianel 4 Cymru ar Fehefin y 1af.

Daeth i fyd teledu ym 1964 a bu'n cynhyrchu a chyfarwyddo rhaglenni i TWW a HTV tan 1977. Ers sefydlu cwmni cynhyrchu EOS, bu'n gweithio fel cynhyrchydd rhaglenni annibynnol i HTV, BBC Cymru a chwmniau eraill. Euryn Ogwen oedd cadeirydd cyntaf Cymdeithas Darlledwyr Cymraeg; mae hefyd yn un o sylfaenwyr Darlledu Caerdydd ac yn un o gyfarwyddwyr y cwmni. Fel llenor cyhoeddodd gyfrol o farddoniaeth, Pelydrau Pell.

Cred mai'r gamp fawr fydd cynhyrchu rhaglenni fydd yn apelio at y nifer mwyaf posibl o'r gynulleidfa bosibl o ryw hanner miliwn o bobl.

---------

Symud Tŷ: Mae Esther ac Alwyn Humphreys wedi symud i Highfields i fyw. Pob dymuniad da iddynt yn eu tŷ newydd.

# BRYSIWCH WELLA

Dymunwn lwyr wellhad i Mr. Ieuan Hughes, gwr 'Mac' a thad Mari, Gareth a William. Bu yn yr ysbyty'n ddiweddar am ychydig. Mae fel pe bai nad yw meddygon i fod i gael afiechydon gymaint oedd y sioc o glywed ei fod yntau'n glaf yno.

Gobeithiwn hefyd y bydd Siwan, merch fach Iona a Gareth Lloyd Williams, yn gwella'n iawn o'i thriniaeth hi yn yr ysbyty.

# COLOFN SHÂN

Mae'n siwr bod darllenwyr y Dinesydd wedi hen laru clywed sôn am Y Wladfa, a pan fyddai'n deud adra "am be gai' sôn yn y Dinesydd mis yma" mae pawb ag un llais yn dweud "rwbath 'b law Patagonia"! Ond wir y mae'n rhaid i mi fynd a chi yno'r mis yma.

Chwith garw i mi oedd clywed yn ddiweddar am farw dwy o'm ffrindiau yn y Wladfa - dwy mewn oedran mawr mae'n wir, ond dwy yr oeddwn i'n teimlo'n agos iawn atynt. Roedd Mrs. Edmunds yn byw yn Nhrelew ac fe ges i brofi o gynhesrwydd croeso ei haelwyd fwy nag unwaith. Am flynyddoedd bu ei chyfraniad hi a'i diweddar wr yn enfawr i Ysgol Ganolraddol y Camwy yn y Gaiman, lle bu'r ddau yn athrawon. Roedd Mrs. Edmunds hefyd yn un o golofnau capel Tabernacl Trelew, yn athrawes Ysgol Sul ac yn arwain yr oedfaon. Yn wahanol i'r mwyafrif llethol o'r Gwladfawyr roedd hi'n un o rhai prin hynny gafodd brofiad o fyw yn y ddwy wlad. Anfonwyd hi'n ferch ifanc i gael ei haddysg yng Ngholeg Prifysgol Cymru yma yng Nghaerdydd a bu'n lletya yn Neuadd Aberdâr. Gwraig dawel fonheddig, eiddil o gorff ydoedd, ac yn ddiwylliedig iawn a thoreth o farddoniaeth ar ei chof. Cofiaf ofyn iddi, i ba wlad y perthynai ac i ba un yr oedd ei theyrngarwch. Fe gefais yr ateb ei bod hi'n tystio ei "bod hi'n bosib bod yn deyrngar i'r ddwy wlad - i Gymru sydd mor annwyl yn ein golwg, a'r un modd i Ariannin". Profodd hynny drwy ei dycnwch yn hybu'r bywyd Cymraeg yn ei chylch.

A, wyddoch chi be - mae Modryb Maggie wedi mynd cofiwch. Ia, yr hen wraig a ddathlodd ei phenblwydd yn gant a thair oed yn gynharach eleni. I mi Modryb Maggie oedd brenhines Patagonia ac mae'n dda sobor gen i i mi gael y fraint o fod ar ei haelwyd fechan ddwywaith - a bob gair a lefarodd wrthyf gen i'n ddiogel ar dâp - pedair awr a hanner o sgwrsio bywiog, difyr ac yn wir yn dalp o "hanes" - hanes y dyddiau arloesol cynnar. Roedd ei theulu'n un o'r rhai cynta i fentro o ddyffryn y Camwy ar draws y pedwar can milltir o baith i ymsefydlu yng Nghwm Hyfryd. Rwyf wedi rhannu'r profiad o fod yng nghwmni Modryb Maggie droeon efo darllenwyr y Dinesydd felly wnai ddim ail adrodd fy hun a morio yn f'atgofion, dim ond deud na fydd y Wladfa byth yr un fath heb y ddwy wraig hynod yma.

Mae'r colledion yn amal y dyddiau yma ac yn cadarnhau'r teimlad sydd gen i mai gorau po gynted i mi gael mynd yn ôl yno i gyfarfod unwaith eto hynafgwyr difyr eraill. Mae'r amser yn brin.

---

YSGOL FEITHRIN LLANDAF :

I cymharu ac ysgolion meithrin eraill mae Ysgol Feithrin Llandaf yn ffodus iawn drwy garedigrwydd yr Urdd i gael ystafell sefydlog. Mae'r ysgol nawr ar agor am bum bore yr wythnos a thri prynhawn. Mae 26 o blant yn mynychu'r ysgol ar hyn o bryd: 15 yn y bore ac 11 yn y prynhawn.

Mae'r ysgol yn weithgar iawn a chawn gefnogaeth brwd oddi wrth y rhieni. Rydym yn awyddus iawn i ddenu sylw y gymdeithas o'n cwmpas. Y llynedd cymerwyd rhan yn Gala Flynyddol y Glowyr yng ngerddi Soffia ac hefyd yng Ngharnifal Charles St. Profodd hwn i fod yn llwyddiannus iawn a gobeithiwn wneud yr un peth eleni.

Mae llawer o famau'r plant yn dysgu'r iaith mewn gwersi a gynhelir gan yr Ysgol Feithrin bob bore Gwener yng Nghanolfan yr Urdd. Rydym yn ffodus iawn fod gennym athrawes wych i ddysgu'r mamau, sef Mrs. Lyn Mererid ac yr ydym yn ddiolchgar iawn iddi am ei harweiniad a'i gwasanaeth ffyddlon i'r ysgol.

Mae'r plant eu hunain yn brysur iawn trwy'r amser yn paratoi ar gyfer pob math o weithgareddau, e.e. Cyngerdd Nadolig, Cyngerdd Dydd Gwyl Dewi ac arddangosfeydd lleol. Ar hyn o bryd wrth gwrs maent yn paratoi at Yr Wyl Feithrin ac yn y dyddiau diwethaf yma maent wedi gorffen gwneud cacen anferth i ddathlu deng mlynedd cyntaf y Mudiad. Ambell dro mae pethau difri iawn yn digwydd yn ystod y bore yn yr Ysgol Feithrin, e.e. un diwrnod mi ofynnais i un bachgen i roi dwr i'r planhigion. Gan nad oedd ef wedi deall mi ddywedais yn Saesneg, 'Please water the plants'. I ffwrdd ag ef i nol y dwr. Pan ddaeth yn ol - arllwysodd y dwr dros rhai o'r plant a oedd yn chwarae yn y tywod gan ddweud wrthym gan wenu o glust i glust, 'I've watered the PLANTS, Mrs. Bianchi. Dyma enghraifft wych o gymysgu'r ddwy iaith gyda'i gilydd ynte!

Diana Bianchi

# GWYN JONES YN YMDDEOL

Ddiwedd mis Mai ymddeolodd D. Gwyn Jones o'r Eglwysnewydd o swydd Pennaeth Adran Arholi Cyd-Bwyllgor Addysg Cymru - swydd lle bu'n gyfrifol am holl arholiadau Safon Uwch a Safon Gyffredin y Dystysgrif Addysg Gyffredin a'r Dystysgrif Addysg Uwchradd.



Brodor o Gilfynydd yw Gwyn Jones neu, yn fwy manwl, o'r 'William Street' enwog yn y pentref hwnnw. Cyn ymuno â Chyd-Bwyllgor Addysg Cymru yn 1964 bu'n Gyfarwyddwr Addysg Cynorthwyol yn hen Sir Gaernarfon am wyth mlynedd.

Mae'n awdur nifer o lyfrau Cymraeg i blant, gan gynnwys "Palestina, Gwlad yr Iesu", "Robert Owen", "Pontydd", "Glan y Môr" a'r enseiclopidia "Chwilota". Ymddangosodd dwy gyfrol gynta "Chwilota" yn barod ac mae'r drydedd ar fin dod o'r Wasg. Mae Gwyn Jones yn gobeithio y daw'r gwaith o gynhyrchu'r tair cyfrol sy'n weddill cyn pen tair blynedd ac yntau â mwy o hamdden bellach a hefyd nifer o arbenigwyr i'w gynorthwyo i sgrifennu'r deunydd.

Merch o'r Bâd Uchaf, Pontypridd, yw Gwenllian, ei wraig - hithau hefyd wedi sgrifennu nifer o lyfrau i blant.

# "BARABAS - BARABAS!"

Eglwys Nebo Newydd, Cwmdâr, oedd y gyrchfan i'r hen a'r ifanc o eglwysi Bedyddwyr Dwyrain Morgannwg ar nos Fawrth Mai 12, 1981, i wrando ar berfformiad o "Barabas". Y Parch Rhydwen Williams a luniodd y geiriau a Gwynfryn Morgan oedd cyfansoddwr y gerddoriaeth. Cwmni Drama y Carw Coch oedd y perfformwyr ynghyd a'r offerynwyr medrus o dan y galeri ger y sedd fawr.

Portreadwyd trwy gymorth gair a chan obeithion ac amcanion rhai o gymeriadau cyfarwydd y Testament Newydd: Barabas, y prif gymeriad, llofrudd a chenedlaetholwr tanbaid yn brwydro yn erbyn y Sefydliad Rhufeinig. Peilat yn ceisio ei gynnal a Iesu Grist yn cynnig ffordd arall o weithredu. Hen stori mae'n wir ond serch hynny sawl agwedd ohoni yn taro tant cyfoes ac amserol. Teimlais fod y gân olaf yn hynod o effeithiol sef Barabas yn sôn iddo ennill rhyddid gan fod rhywun arall wedi marw yn ei le.

Mae'n debyg y bydd Cwmni Theatr Cymru yn cyflwyno "Barabas" yn yr Hydref. Pan ddaw i'r Brif-ddinas, chwi ddinasyddion, cofiwch anelu trwyn eich ceir i Heol Senghennydd a Theatr y Sherman.

Gwilym E. Davies.

## CLWT Y DDAWNS

Croeso mawr hefyd i Lowri,merch fach gyntaf Chris a Rhodri Jones, chwaer i Rhys William. Bydd parti dawns Aelwyd Caerdydd ar eu hennill eto ar ol geni'r ferch fach chwimwth yma mae'n siwr. Mae Chris a Rhodri wedi gwneud eu henw ym myd dawnsio gwerin led-led Cymru erbyn hyn a ninnau'n ddiolchgar iawn iddynt am y lliw a ddaw i'n bywyd mewn cyngerdd, mewn gwyl awyr agored, mewn gwledd, trwy'u dycnwch a'u gwaith caled nhw. Llongyfarchwn nhw'n fawr ar eni'r ail un fach hon i'w haelwyd.

# LESYNS HISTORY

Cyn hir mae'n debyg y bydd yn rhaid i Ofalwyr Sain Ffagan ddychwelyd i'r ysgol. Ar hyn o bryd mae hen ysgol Maestir ger Llanbed yn cael ei symud garreg wrth garreg i'r Amgueddfa.




# NIA BEN-DIGEDIG

ADOLYGIAD

Ann Beynon

Ar nos Sul, 8 o Fai yn Theatr y Sherman llwyddodd Ysgol Gyfun Llanhari lle methodd yr Eisteddfod Genedlaethol.

Llwyfanwyd perfformiad effeithiol tu hwnt o'r Opera Roc Nia Ben Aur a berfformiwyd gyntaf yn Eisteddfod Caerfyrddin.

Rhiannon Rees gynhyrchodd y perfformiad ac fel arfer roedd graen ar ei gwaith. Mae'n syn yn wir fod cymaint o egni i'w gael mewn un person, gan ei bod newydd orffen helpu gyda thaith yr Urdd Yr Opera Pishin Tair.

Mae'r gerddoriaeth a gyfansoddwyd ar gyfer yr opera gan Ac Eraill yn arbennig o fywiog a chofiadwy. (Braf oedd clywed rhai o staff di-Gymraeg y Sherman yn mwmian "Nia Ben Aur - O dir Na N'Og -" wrthynt eu hunain wrth iddynt fynd o gwmpas eu gorchwylion ar ol y perfformiad.) Rhaid, fodd bynnag, dalu teyrnged i'r cyfarwyddwr cerdd - Euros Rhys Evans - a'r cerddorion - disgyblion yr ysgol i gyd - am wneud eu gwaith mor dda. Roedd afiaith a bwrlwm yn eu perfformiad. Gyda llaw - Euros ysgrifennodd y gerddoriaeth ar bapur am y tro cyntaf, trwy wrando ar y record.

Roedd llawer o blant yr ysgol yn cymryd rhan yn y perfformiad a braf oedd sylweddoli eu bod i gyd yn mwynhau eu hunain gymaint. Nid gwaith hawdd yw llwyfannu perfformiad gyda chymaint o gast. Edrychent i gyd yn hollol gartrefol ar y llwyfan hefyd, ac roedd y symud o un olygfa i'r llall yn llyfn; anaml y cafwyd oedi dianghenraid rhwng golygfeydd a chaneuon.

Roedd safon y canu hefyd yn hynod. Cyfareddwyd pawb gan lais aeddfed Iona Jones (Nia) a llawer o'r unawdwyr eraill. Cafodd Karenza Owen - un o'r plant ieuenga - gymeradwyaeth arbennig am fywiogrwydd ei chan hi.

Nac anghofiwn, fodd bynnag, y rhai nas gwelwyd ar y llwyfan - yn dechnegwyr, cynorthwywyr a chynllunwyr. Deallaf i allu technegol rhai o'r disgyblion syfrdannu staff broffesiynol y Sherman. Pwy ddywedodd y bydd S4C yn brin o Gymry Cymraeg ar yr ochr dechnegol!?

Cafodd pawb na welodd berfformiad Llanhari golled - heb os nac oni bai. Roedd yn noson werth chweil; trueni nad oes modd cael ail berfformiad yn y Theatr rhyw dro!



RHYS, RHYS, RHYS, BRENIN TIR NA N'OG

# MUDIAD YSGOLION MEITHRIN

YSGOL FEITHRIN LLANDAF :

Cynhaliwyd y cyfarfod cyntaf i drafod sefydlu Ysgol Feithrin Llandaf yng nghartref Mr. a Mrs. D.J. Davies, yn y Tyllgoed. Penodwyd Mrs. Ann Saer yn Gadeirydd, Mrs. Maureen Hurley yn Ysgrifennydd.

Roedd Mrs. Lisa Gwyn Erfyl i fod yn athrawes, ond gan nad oedd yn dda iawn ar y pryd, Mrs. Gwenda Spriggs oedd athrawes gyntaf yr ysgol. Roedd Gwenda yn boblogaidd iawn gyda'r plant a'r rhieni a threfnwyd rota ymhlith y rhieni i gynorthwyo bob wythnos. Trefnwyd mini-bus i gludo'r plant a theithiai'r athrawes a'r fam ar y rota gyda'r plant. Cost y bws i'r rhieni oedd oddeutu £7-£8 y tymor.

Dechreuodd yr ysgol yn Festri Salem ar Ddydd Gwyl Ddewi a dathlwyd yr achlysur wrth i'r plant wisgo eu gwisg draddodiadol ac i Deledu Harlech ddod yno i'w ffilmio ar gyfer rhaglen 'Y Dydd' y diwrnod hwnnw.

Peri'r ysgol am ddwy awr yn y bore dair gwaith yr wythnos o 10 o'r gloch hyd 12, ar ddydd Mawrth, Mercher a Iau. Wedi i'r ysgol dyfu'n rhy fawr i un athrawes, daeth Mrs. Enid Evans i gynorthwyo Mrs. Spriggs ac yn nes ymlaen symudwyd o Salem i Ganolfan yr Urdd yn Heol Conwy.

Wele isod restr o'r plant a fynychodd yr ysgol ar y dechrau cyntaf

| | |
|---|---|
| Alison Thomas: | Paratoi ar gyfer lefel 'A' yn Llanharri |
| Peter Spriggs | " |
| Dyfrig Jones | " |
| Dylan Jones | " |
| Rhian Evans, | Paratoi ar gyfer lefel 'O' |
| Jayne Williams | " |
| Mererid Davies | " |
| Huw Smart, | Ymuno a'r Heddlu |
| Russel Williams | |
| Gareth Jenkins, | Coleg Amaethyddol ym Mhenybont |
| Fiona Howells, | Aeth i Cantonian o Fryntaf |
| Gareth Evans | |
| Delyth Evans | |
| Gareth Hilling | |
| David Hilling | |
| Lawrence Gale | |
| Angharad Jones, | Prifysgol Aberystwyth |
| Ann Morgan | |

YSGOL FEITHRIN DINAS POWIS

Roedd Ysgol Feithrin Dinas Powis wedi hen fwrw'i gwreiddiau yn yr ardal hon pan ddaeth ein teulu ni i fyw yma rhyw dair blynedd yn ol. Ar ol codi plant Cymraeg yn nieithrwch Llundain a Brwsel, roedd Cymreictod Dinas Powis yn galondid gwirioneddol, er gwaetha'r ffaith fod y pentre wedi ei leoli mewn rhan mor Seisnigaidd o Gymru.

Bodolaeth yr Ysgol Feithrin yn sicr sy'n rhannol gyfrifol am yr awyrgylch hwn. Mae ymroddiad Pwyllgor yr Ysgol a brwdfrydedd y rhieni ar hyd y blynyddoedd wedi gadael eu hol ar y gymdeithas. Un o hoff achlysuron trigolion y pentre yn wir yw'r Ddawns Werin flynyddol sy'n cael ei threfnu gan Bwyllgor yr Ysgol Feithrin. Bob mis Mawrth ar yr achlysur hwn fe fydd Neuadd Lee dan ei sang, a phob math o bobol yn ymuno yn yr hwyl, nid am fod ganddyn nhw unrhyw gysylltiad a'r Ysgol Feithrin fel y cyfryw, ond am fod hon yn noson draddodiadol lwyddiannus.

Does dim angen pwysleisio pwysigrwydd Ysgol Feithrin Gymraeg mewn ardal fel hon, a phrin fod angen dynodi ei chyfraniad hi. Yn gynta, mae hi'n rhoi cyfle i blant Cymraeg eu hiaith sylweddoli nad cyfrwng sy'n gyfyngedig i'r aelwyd yw'r famiaith - plant a fyddai ddeng mlynedd yn ol wedi cael eu rhwydo gan y gyfundrefn addysg Brydeinig o'r cychwyn cynta.
Yn ail, mae plant o gartrefi di-Gymraeg, a rhannol Gymraeg, yn cael y siawns i feistroli'r iaith ym more oes, ac yn drydydd mae'r gweithgareddau cymdeithasol yn dod a'r rhieni at ei gilydd, yn cynyddu eu hymwybyddiaeth nhw o'r diwylliant Cymraeg ac yn amal iawn yn eu hysgogi nhw i ddysgu'r iaith.
Pan ddaw hi'n amser i blant Dinas Powis symud ymlaen i Ysgol Gymraeg Penarth, mae'r profiadau a gawson nhw yn Festri Capel Ebeneser o werth amhrisiadwy. Mewn tair blynedd rydw i wedi gweld plant bach dwy a hanner mlwydd oed (ac yn wir wedi gwneud astudiaeth fanwl o ambell un) yn dechrau'r Ysgol Feithrin heb air o Gymraeg, ond eto'n rhugl yn yr iaith cyn cyrraedd ei benblwydd yn bump oed, prawf ei bod hi'n talu ffordd i ddechrau'n gynnar.

Tystiolaeth derfynol o lwyddiant unrhyw ysgol wrth gwrs yw bodlonrwydd y plant, a does dim amheuaeth fod plant Ysgol Feithrin Dinas Powis, o dan ofal Mrs. Moyra Owen, ymhlith plant hapusaf Cymru. Mae pawb sy'n gysylltiedig a'r Mudiad Meithrin yn cytuno fod cyfraniad Mrs. Owen yn hawlio clod arbennig. Hi sydd wedi bod wrth y llyw ers y sefydlwyd yr ysgol yn Ninas Powis ac erbyn heddiw mae ei dyfalbarhad a'i phrofiad yn y maes 'tu hwnt i bob canmoliaeth. Ar hyn o bryd mae Mrs. Julia Beasley yn cynorthwyo Mrs.Owen wrth ei gwaith. Mae Mrs. Beasley wedi dysgu Cymraeg mor drylwyr fel iddi lwyddo i gael gradd yn y pwnc yng Ngholeg Prifysgol Cymru, Abertawe. Mae Mrs. Beasley yn disgwyl ei hail blentyn yn yr haf ac mae ei ffrindiau hi yn Ninas Powis yn dymuno pob hwyl iddi.

Mae pawb yn y cylch sy'n cefnogi Addysg Gymraeg hefyd yn dymuno hir oes i'r Ysgol Feithrin ac ambell un yn gresynu nad oes yna ddim ysgol gynradd Gymraeg yn y pentre ei hunan i gymryd ei lle priodol wrth ochr Ysgol yr Eglwys ac Ysgol y Murch. Fe fyddai datblygiad o'r fath yn sicr o gynyddu nifer y rhieni sy'n awyddus i godi eu plant yn ddwyieithog a hynny yn ei dro yn sicr o ehangu'r Ysgol Feithrin.

Roseanne Reeves.

---

YSGOL GYFUN CWM RHYMNI,
ABERBARGOED.

Mae tim athrawon yr ysgol newydd hon yn gyflawn erbyn hyn, ac eithrio un penodiad - gweler Y Dinesydd nesaf. Llongyfarchiadau iddynt, a phob hapusrwydd a llwyddiant i'r ysgol.

Prifathro: Mr. Huw Thomas, gynt o Rydfelen.
Dirprwy Brifathro: Gareth Williams, a chyfrifoldeb am ddatblygiad ieithyddol a phwyslais ar y Gymraeg; Rhydfelen.
Dirprwy Brifathrawes: Elizabeth Phillips, Mathemategydd, o Ysgol Gyfun Llanhari.
Datblygiad ieithyddol, a phwyslais ar Saesneg: Eryl Lewis, Ysgol Gyfun Rhydfelen.
Addysg Wyddonol: Dr. Hywel Griffiths, eto o Rydfelen.
Addysg Ymarferol ac Esthetig: Elgan Jones, Pengam ac Adran Grefftau Rhydfelen.
Addysg Adferol: Olwen Rees, Caerffili ac Ysgol Arbennig Ystrad Mynach.
Addysg Ddyneiddiol: Elin Phillips, Gwaelod y Garth ac Ysgol Rhydfelen.
Gwyddor Cartref a Chwaraeon: Sian Davies, Penybont ac Adran Wyddor Cartref, Llanhari
Ffrangeg ac Astudiaethau Ffrengig: Myra Shakespear, Basaleg ac Ysgol Heol Ddu, Y Bargoed.

# Y DYSGWYR

CYMDEITHAS Y DYSGWYR, CAERDYDD

Miss Phyllis Kinney oedd y siaradwraig wadd yng nghyfarfod mis Mai o Gymdeithas y Dysgwyr, Caerdydd, yn Nhy'r Cymry.

Roedd tua ugain o aelodau yn bresennol, ac wrth agor ei sgwrs soniodd Miss Kinney yn fyr am ei chydymdeimlad tuag at ddysgwyr, ac hefyd am ei phrofiad ei hunan yn dysgu'r iaith, cyn iddi fynd ymlaen at thema ei sgwrs 'Canu Gwerin'.

Dangoswyd esiamplau o ganeuon lle mae llawer o'r arwyddocad gwreiddiol wedi mynd ar goll a rhoddwyd awgrymiadau am eu tarddiad a'u bodolaeth mewn gwledydd eraill; er enghraifft y caneuon sy'n gysylltiedig ag hela'r dryw. Mae'r esiampl hon yn ymestyn hyd yn oed i'r Amerig lle mae llygoeden fawr wedi cymryd lle dryw bach fel ysbail, ond mae defodau'r helfa er eu bod wedi newid, yn parhau o hyd yn y gân.

Wrth sôn am y Fari Lwyd, dywedodd Miss Kinney ei bod hi'n gobeithio y byddai'r hen arferiad sy bellach yn cael ei atgyfodi yn yr ardal hon, yn dod yn arfer naturiol i'r genhedlaeth nesaf.

Rhoddodd Miss Kinney oleuni i ni ar darddiad y caneuon gwerin sydd ar gael, gan esbonio pa mor bwysig ydyw i beidio a holi'r hen bobl yn uniongyrchol, ond yn hytrach i siarad a nhw, am eu plentyndod a byddant yn cofio, heb eu cymell, y caneuon yr oeddynt yn arfer eu canu.

Clywsom am esiamplau o amrywiol benillion a oedd wedi cael eu hysgrifennu mewn mwy nag un iaith. Awgrymodd Miss Kinney iddynt gael eu hysgrifennu o ran hwyl, er mwyn profi gallu y cyfansoddwr a'r canwr mewn mwy nag un iaith, yn hytrach nag oherwydd bod ynddynt unrhyw anhawsterau.

Mwynhaodd y gynulleidfa y ffordd yr ymdriniodd Miss Kinney a'i phwnc a'i chanu o esiamplau o'r amrywiol ganeuon.

Clodd Miss Kinney ei sgwrs drwy apelio ar ran y canu gwerin, yn enwedig am gymorth a chefnogaeth i gasglu rhai newydd er mwyn cyfoethogi'r casgliad yn Amgueddfa Werin Cymru.

DOD I GOLEG YN HEN DROS YR IAITH

Er bod pawb yn methu deall pam yn y byd, nac yn wir, sut yn y byd, y deuthum i Goleg yn y lle cyntaf, nid wyf yn mynd i drafod y pwnc hwnnw yma - stori hir ydyw.

Yr oeddwn eisoes wedi hen flino ar y golwg oedd yn dod ar draws pob wyneb o glywed y newyddion. Braidd yn debyg i'r hen hysbyseb SIOCLED FRY yna - ANGHREDINIAETH, SYLWEDDOLIAD, PENBLETH - daeth un ar ol y llall. Ces i amryw o awgrymiadau tywyll yn cyfeirio at fenywod o'm hoed i, ac yn y blaen, ond ta waeth am hynny, yn ystyfnig fel arfer, daliais ymlaen.

Yn yr wythnos gyntaf bum i bron a chytuno a'm cynghorwyr doeth. Prawf iechyd oedd ar y dydd cyntaf - lan a lawr grisiau diderfyn. Bum i'n sefyll mewn cwt i gael un papur er mwyn sefyll mewn cwt hir arall i'w roi i rywun arall eto. Draw i'r prif adeilad wedyn, a chwt hir eto i eistedd o flaen camera a rhif mawr ar draws fy mron fel pe bawn yn mynd i'r carchar.

Ar ol hyn oll, plygodd fy mhenliniau. Un ffaith na all neb ei hamau nid adeiladwyd yr Undeb yma er mwyn rhoi cysur i mi. Yr oedd y lle fel ogof fawr, a'i muriau tywyll digalon. O Far Morgannwg deuai swn y juke-box yn canu'n uchel yn ddiddiwedd uwchben swn bywiog y myfyrwyr ifainc.

Hwyrach y byddai lle tawel lan y grisiau? O'r diwedd darganfum ystafell fawr, bron yn wag oddieithr am ddau neu dri o fyfyrwyr o'r India, a edrychai arnaf mewn syndod. Yn y cornel pellaf yr oedd gwelyau bach, a chan feddwl mor garedig yr oedd rhywun wedi bod, tynnais fy esgidiau a gorweddais, wedi blino'n lan.

Ar y ffordd allan, gan edrych a theimlo fel hen iar glwc, ei phlu yn afler, gwelais yn rhy hwyr o lawer, yr hysbysiad ar y drws. Perthynai'r gwelyau i fyfyrwyr a oedd heb lety. Yr oedd un bachgen yn dal i wylio mewn syndod, a daeth dealltwriaeth - ei wely ef oedd wedi bod yn gysur i mi!.

Dechreuais gerdded at y car gyda'm bag trwm yn llawn o lyfrau newydd. Yr oedd deuddeg milltir o heol brysur eto, a daeth, trwy ddyfnder isel fy ysbryd eiriau yr hen emyn 'Courage, Brother, do not stumble'. Yn wir - a minnau heb groesi trothwy'r capel ers blynyddoedd.

Beth bynnag, fore trannoeth yr oeddwn i wedi dychwelyd i'r gad. Dechreuais y diwrnod mewn hwyl dda, gan redeg yn hwyr i'r lift a gwthio i mewn ar y funud olaf. Er mod i bron wedi colli f'anadl, yn siaradus o'r diwedd dywedais "Its all too much for us our age is'nt it?" Daeth gwen wan i wyneb anystwyth cyn iddi adael ar y llawr nesaf. Yn y prynhawn cwrddasom unwaith eto yn y ddarlith, ond yn anffodus nid myfyriwr oedd hi!

Darlith olaf oedd y Mabinogi, a daeth yr Athro J. i mewn, gan ddechrau mynd ati ar unwaith, yn gyflym, ac yn iaith y Gogledd. Ar ol Cymraeg syml, araf, y dosbarth nos, yr oeddwn ar goll. Throis fy llygaid i lawr ar y llyfr mewn arswyd ond oedd hwnnw mewn Cymraeg Canol ac nid oeddwn yn gallu deall un gair. Edrychais at y ffenest mewn ofn, bron yn disgwyl gweld twr y Kremlin yn codi y tu allan.

Ond mae pethau wedi gwella erbyn hyn - y mae'r llanw wedi troi. Yn y coleg yr wyf yn gallu ateb siaradwr sy'n fyw, yn lle yr unig beth a gynigir ar y teledu a'r radio - "traffig yr un ffordd". Ac ni allai'r teledu gystadlu a'r Cwrs Cymraeg ar faes adloniant ysgafn. Beth sydd gan Hanmer House of Horrors nad oes gan Sion Cent a'i bryfed y bedd? A beth sydd gan Dallas i gymharu a brwydr gynhyrfus William Williams Pantycelyn yn erbyn ei rwyd cnawdol? Cornel bell yn Llyfrgell Salisbury yw fy nghapel bach i. Disgleiria'r haul trwy'r ffenestr; y mae'n gynnes a chysurus, a phob llyfr i'm helpu wrth law. Gobeithio, yn fuan, yr unig wahaniaeth rhwng gweddill y dosbarth a minnau fydd y ffaith fy mod i bob tro yn diffodd y golau pan yw'r ystafell yn mynd yn wag!

Helen Llewelyn.

---

Dylid anfon holl ddeunydd ar gyfer rhifyn Gorffennaf at Mrs. N. Couch, 2 Crystal Glen, Y Waun, Caerdydd, Tel: 753625, erbyn yr 20fed o Fehefin, 1981.

---

Carai'r Dinesydd ddiolch i Gymdeithas Celfyddydau Deddwyrain Cymru am ei chefnogaeth ariannol tuag at y rhifyn hwn.

# Y GOLOFN FARDDOL
## gan Arfon

Yn rhifynnau diweddar y cylchgrawn BARDDAS bu'r Prifardd Gwilym R. Jones yn ymdrin â'r Wers Rydd fel cyfrwng barddoni ac yn canmol ei haddaster i fynegi profiadau dwys. Yn un o'r rhifynnau diweddaraf (sef un Mawrth/Ebrill) dywed Gwilym R. "Y mae un gerdd sy'n enghraifft deg o'r math o ganu na allasai fod wedi dod o unrhyw fathdy ond bathdy y wers rydd". Yr enghraifft a ddyry yw cerdd ysgytiol gan Ray Evans, Rhiwbeina, ac ar ôl rhoi gwerthfawrogiad manwl ohoni mae Gwilym R. yn cloi gyda'r geiriau hyn: "Un o'r cerddi sy'n cyfiawnhau y wers rydd Gymraeg, gredaf i."

Diolch yn fawr iawn i Ray am roi ei chaniatad imi godi'r gerdd i'r golofn y mis hwn.

<u>EGWYL MEWN GOLCHFA AR DDYDD GWENER Y GROGLITH</u>

"Llwythwch y peiriant yn ddestlus,  
A gofalwch bod y drws wedi'i gau'n glos  
Cyn arllwys y powdwr (dim gormod, cofiwch!)  
I oriwaered ei dalcen talog.  
Dewiswch y tymheredd priodol i'r dŵr -  
Poeth, cynnes neu glaear.  
Ac yn olaf, yr arian,  
Gwthiwch hwn yn ofalus i ymennydd y peiriant;  
Tri darn deg ceiniog, os gwelwch yn dda,  
Dim mwy, dim llai."

Mor braf yw eistedd mewn golchfa ar Ddydd Gwener y Groglith  
Yn magu  
Fe segurdod prin!  
I lawr yn y parc mae'r haul yn frith yn y borfa,  
A'r daffi-twm-dilis eger yn 'stumio  
Hercian  
Hen wreigian sy'n cario ei blinder  
Yn groes  
Ar ei bynsen o wyneb.  
A draw wrth y siopau  
Mae bachgennyn piwis  
Yn herio  
Fory-Sion-crydd ei fam, a'r cysgod grisial  
Sy rhyngddo  
Ag wy pasg ei baradwys.

Ond yma, mae'r peiriant yn drochion o chwys  
Wrth ymgodymu  
A budreddi fy myw;  
Ei galon haearnaidd yn curo, curo  
Wrth dywallt ei waed gwyn o'i wythiennau metel  
I sicrhau i mi  
Iechyd a chysur a pharchusrwydd.  
Y tri hyn  
Am dri darn deg ceiniog -  
Dim mwy, dim llai.

Mae griddfan y nerfau trydan  
Yn tewi.  
"Pan ddiffydd y golau  
Gorffennwyd y golch.  
Symudwch y dillad, os gwelwch yn dda,  
O grombil y peiriant."

Diolchaf innau i'm gwaredwr  
Di-aelod, un-llygeidiog  
Am wythnos arall  
O iachawdwriaeth bryn.

Y tu allan  
Uwch ben rhuban symudol  
Yr heol,  
Mae cloc y dre  
Yn taro tri.

Ray Evans.

<u>AR WERTH</u>

Ychydig iawn o ddarllenwyr Y Dinesydd sydd heb lun ar wal yn y tŷ, dybiwn i, ac rwy'n siŵr fod dewis gofalus wedi bod ar lawer ohonyn nhw ac y mae yna gofion cynnes yn dod i'r meddwl ac i'r galon wrth edrych ar y lluniau hyn. Ydych chi yn cael yr un pleser wrth ddarllen neu glywed darn o farddoniaeth? Os ydych chi, mae yna noson wrth fodd eich calon ar NOS IAU, GORFFENNAF yr 2il am 7.30 o'r gloch yn YSGOL GLANTAF. Noson wedi ei threfnu i chi gael gwydraid o win a chyfle i wrando a phrynu rhai o ddarnau barddoniaeth ein beirdd enwocaf. Bydd pob darn a leferir ar werth, gan ein bod wedi cael copiau mewn llawysgrifen a chyda chofnod beirdd y cynhyrchion hyn.

Trefnir y noson gan Bwyllgor Gŵyl Cerdd Dant Caerdydd.

Os am docyn, ffoniwch Arfon Williams ar fif 612045.

# LLONGYFARCHION

Ganwyd pedwerydd mab i Chris a Wendy Grace (Wendy Williams gynt) o'r Eglwysnewydd. Mae Tomos, William a Sam wrth eu bodd gyda'u brawd bach newydd.

Croeso mawr hefyd i fab cyntaf Gwen a Tegid Wyn Jones, Rookwood Close, Llandaf. Ymhen wythnos ar ol i Gwen fod yn ymladd etholiad yn lew dros Blaid Cymru yn Llandaf, ganwyd Meirion Wyn iddi, brawd bach i Heledd a Nia. Roedd llawenydd y teulu yn gyflawn gan i dad y tri a fu'n darlithio allan yn yr Amerig gyrraedd yn ol i Gymru mewn hen ddigon o amser i fod gyda'r teulu adeg y geni.

Bedyddiwyd Trystan, mab Gwenda a Dennis Ffransis, a brawd bach Lowri, Geraint a Dewi, yng Nghapel Salem, Treganna, Caerdydd ar y 5ed o Ebrill.

Ar y 3ydd o Fai, cafwyd tri bedydd o'r un teulu. Sian Angharad, Rhiannon a Gwenllian Branwen, merched bach Dr. a Mrs. Michael Buck, a hyfryd oedd gweld cynulleidfa dda ar yr achlysur arbennig yma eto yn Salem, Treganna.

Bedyddiwyd hwy gan Arolygwr Weinidog Salem, y Parch D. Haydn Thomas, B.A.

The Orange Grove
**Y LLWYN OREN**
43 MAESFFYNNON
Ffon: 499543
***Arbenigwyr Mewn***
***Ffrwythau a Salad Dethol***
Hefyd 22 CANOLFAN Y FAELFA,
LLANEDEYRN,
Ffon: 734372

Teisennau Suzanne's
20 Maesyffynnon,
Caerdydd
Tel: 497647
Perchennog: Les Davies


## CROESO I FAESYFFYNON

# CROESO I FA

Ble mae'r pentref yma? Yng Nghaerdydd lle mae'r rhan fwyaf o'r dinasyddion yn ei alw yn Wellfield Road. Paham yr wyf yn galw'r stryd faesdrefol yma yn bentref? Am taw dyna beth yw hi i fi a'm plant. Ond bro Gymraeg? Onid chwerthinllyd yw dweud hynny ar ganol môr o Seisnigrwydd fel Caerdydd? Wel na - Gwyn ap Gwilym, Emyr Llew, a Neil ap Siencyn a'r holl Adferwyr gwrth-Gaerdydd eraill - mae'r tri phlentyn sy 'da ni yn uniaith, ac wrth ymweld â Maesyffynnon bron bob dydd Sadwrn yn disgwyl yn eiddgar am y jant wythnosol, pryd y byddant yn cwrdd â ffrindiau Cymraeg eu hiaith ar y stryd ac yn y siopau ac â ffrindiau di-Gymraeg hefyd sydd yn Gymry ac yn fwy croesawgar o lawer na'r di-Gymraeg y maent yn cwrdd â hwy yng nghyffiniau Llanybydder a Llanbed.
Mae'r stryd yma yn gyrchfan i lawer o Gymry Caerdydd a nid yw'n anarferol i gael sgwrs â dwsin o Gymry lleol a chydnabod dwsin arall wrth iddynt ruthro o gwmpas eu siopau. Un o hoff leoedd y plant yw'r Llwyn Oren sef siop ffrwythau yr Orange Grove. Dyma lysiau a ffrwythau gorau'r tymor a hefyd gweini brwd a chroesawgar. Dyma hefyd ddwy ddysgwraig frwd - un ohonynt wedi helpu yn Ysgol Feithrin y Crwys ac yn anfon ei phlentyn i'r Parêd y flwyddyn nesaf. Pleser arbennig y mab yw cael ei stwffo â grawnwin tra fod ei dad yn archebu'r nwyddau.

Ar ôl ymweld â'r Llwyn Oren byddwn yn aml yn troi i gyfeiriad Delicatessen Berni, stordy o fwydydd yr Eidal, Ffrainc, yr Almaen ac ambell wlad arall. Siop sy'n perthyn i deulu hyfryd o Gymry Eidalaidd yw hon ond mae'n bosibl archebu popeth yn Gymraeg oddi wrth y ferch sy'n hanu o Lambed.
Nid yw pob ymweliad â'r siopau yn berffaith hyfryd. Yn anffodus yn ein teulu ni mae galw yn Craftware fel rheol yn golygu fod rhyw gwpan neu ddisgl wedi'i falu gan y plant, ond hyfryd yw gweld yr

Berni's Delicatessen
57 MAESYFFYNNON -
Ffon: 490358
***ARBENIGWYR YM***
***MWYDYDD Y CYFANDIR***
***A PHASTA***
***GWAITH CARTREF***




ER MWYN
TREFNU'CH GWYLIAU
DEFNYDDIWCH
***GOING PLACES***
Ffoniwch 493424
25 MAESYFFYNNON

Country Cousins
DILLAD ANARFEROL
MEWN DEFNYDDIAU NATURIOL
*SIDAN - COTWM - GWLAN*
34 MAESYFFYNNON
Ffon: 493647

CROESO I FAESYFFYNON

# ESYFFYNON

amrywiaeth o lestri a gwydr sy i'w gael yma. Mae sawl anrheg wedi dod o'r fan yma.

Cymry di-Gymraeg, ond Cymry'n bendant, sy'n gweini ac yn gweithio ym Mhopty Suzanne, ond mae Mr. Davies a'i weithwyr yn cynhyrchu bara a theisennod o Ffrainc ac Awstria yn ogystal a hen ffefrynau fel pice bach a thorthau Abertawe.

Does dim byd Cymraeg na Chymreig yn siop 'Country Cousins' os nad yw rhai o'r dillad yn dod o Fryniau Casia - sydd yn bosibilrwydd am fod pwyslais ar ddillad ethnig o India a Tseina. Mae'r lliwiau dieithr yma wedi cyrraedd seti syber ein capeli cyn hyn, beth bynnag.

Wedi'r holl ruthro am fwyd ac am ddillad mae llawer yn troi at flasu un o ogoniannau Caerdydd sef hufen ia Mr. Thayer. Cymro o Gwm ger Glyn Ebwy yw Mr. Thayer ei hunan ond i lawer o ddarllenwyr y papur yma "dyn Thayers" yw Mr. Davies, rheolwr y siop ym Maesffynnon sy'n siwr o fod yn adnabod y rhan fwyaf o Gymry Caerdydd am fod cymaint yn mynychu'r deml yma i hufen ia.

Wrth sôn am bethau wedi'u rhewi mae'n werth nodi fod Warws Frocut gerllaw Lle mae dysgwyr brwd eraill yn cadw trysordy o rewfwydydd o'r pys arferol i falwod y Burgwyn.

Wedi hyn os ydych o hyd am fynd yn ôl i'r wlad neu i ddal y trên cyntaf i Flaenau Ffestiniog ewch i "Going Places" lle y gallwch godi tocyn ar unwaith, neu, os am ddychwelyd, fe allwch hefyd drefnu eich gwyliau yno.

Ond mae'r plant yn 'mofyn aros yn yr awyrgylch yma. Nid yw'n berffaith Gymraeg wrth gwrs ond yn bendant nid ydynt hwy yn teimlo fod eu hiaith yn estronol wrth siopa.

A oes ardaloedd eraill yng Nghaerdydd sy'n debyg? Gadewch inni wybod.

Diolch hefyd i'r holl fasnachwyr sy yn ein cefnogi ni trwy eu hysbysebion. Cofiwch ddweud wrthynt i chi weld eu hysbysebion yma.


Parti Gŵyl Ifan
Y Dinesydd
Nos Wener, Mehefin 19
Trewallter Fawr
Bwyd
Diod
Twmpath
Disgo
8 tan 12
£3






FRO-CUT FREEZER CENTRE

FRO-CUT

CANOLFAN REWFWYD FRO-CUT




Prif Ganolfan Caerdydd am Rewfwyd
Cedwir yr holl brif fwydydd rhewedig:
*Bird's Eye, Kraft, Findus, Heinz, Youngs, Walls, Brains etc.*
Parcio rhydd i dros 200 o geir. Croeso i Access a Barclaycard
Dosberthir nwyddau gwerth £30 yn rhad yn lleol
(o fewn 15 milltir i Gaerdydd)
(2 funud o Heol Albany)

HEOL MARLBOROUGH, CAERDYDD. Tel. Caerdydd 496056 (PBX)

| | | |
|---|---|---|
| Oriau: Dydd Llun - Dydd Mercher, | | 9.00a.m. - 5.30p.m. |
| | Dydd Iau a Dydd Gwener, | 9.00a.m. - 8.00p.m. |
| | Dydd Sadwrn | 9.00a.m. - 5.00p.m. |

# Y CHWIBAN OLAF



Mae'n fis Mai arnai'n ysgrifennu hwn, a bellach mae tymor pel-droed 1980-81 ar ben. Mae tynged timau peldroed y ddwy ddinas yn y De wedi ei setlo, a llongyfarchiadau i dîm Abertawe ar gyrraedd uchelfannau'r Adran Gyntaf am y tro cyntaf yn eu hanes. Cael a chael oedd hi ar Ddinas Caerdydd i gael y fraint o chwarae tymor pellach yn yr ail adran, dal arni o drwch rhywbeth teneuach na'r blewyn traddodiadol a wnaethant y tro hwn - a tydi hynny yn fawr o gysur i neb o gofio mai'r un ydi'r hanes o flwyddyn i flwyddyn yn ddieithriad.

Ochenaid o ryddhad a ddaw o du'r merched sy'n gysylltiedig a pheldroedwyr Clwb Cymric hefyd. Dim mwy o ddillad mwdlyd i'w golchi pob dydd Sadwrn, dim mwy o ddioddef hanesion diddiwedd y gôl fu bron cael ei sgorio neu'r anlwc fod trawst y gôl wedi chwyddo gyda'r glaw cyn diwedd y gem a olygodd y gwahaniaeth rhwng curo a cholli. Dim mwy o'r coesau yn las gan gleisiau, a'r llygaid a'r wyneb yn frith o friwiau wedi'r ddamwain anffortunus o faglu ar y ffordd i'r ystafell newid wedi diwedd y gêm. Na, ar bnawn Sadwrn o hyn ymlaen, tan fis Medi nesaf, bydd pob gŵr ufudd yn dilyn y ferch yn ei fywyd, a'i chynorthwyo i gario sacheidiau o ddillad newydd, bocseidiau o gelfi newydd, a chant a mil o bethau eraill o siopau Laura Ashley neu Habitat - pethau yn naturiol yr oedd yn RHAID eu cael -

"Dim byd i'w wisgo i fynd allan heno 'ma"

"Y! Dim byd? Beth am y ffrog goch 'na brynaist ti rhyw fis yn ôl?"

"Dwi wedi gwisgo honno un waith"

"Beth am y sgidia 'na o Dolcis, ac mi wyt ti'n prynu pacad o dights bob tro da ni'n mynd i Tesco"

Ond rhaid peidio crwydro gormod oddiar prif fwriad yr erthygl sef ysgrifennu mymryn o hanes gemau olaf y tymor am eleni.

Dwy gêm sydd i'w trafod, y gyntaf ar Ebrill 4ydd yn erbyn Bridgend Street ar gae Parc Sblott, ac yn wir gwrthwynebwyr nad ydyn erioed wedi colli yn eu herbyn. Cadwyd y record hon eto wedi'r gêm yma er mai gêm gyfartal ddi-sgor oedd hi'r tro hwn. Bu'n frwydr galed o'r cychwyn cyntaf a chafwyd sawl cyfle teg gan y ddau dim i sicrhau buddugoliaeth, ond nid oedd dim yn tycio a rhaid oedd bodloni ar rannu'r pwyntiau ar chwyth olaf y dyfarnwr. Diddorol oedd ebychiadau'r gwrthwynebwyr wedi'r gem tra'n ceisio dyfalu pa bud a roddwyd arnynt y tro hwn.

Ymlaen wedyn i'r gêm olaf ar faes Pontcanna ar Ebrill y lleg yn erbyn Tongwynlais. Roedd peth diddordeb yng nghanlyniad y gem hon o achos fod y ddau dim yn glos wrth ei gilydd yn y gynghrair ac roedd safon y chwarae yn atgo o hynny hefyd. Gem glos fu o'r herwydd a'r naill dim fel y llall yn chwarae gem amddiffynol. Cyfartal fu'r sgor wedi'r awr a hanner - un gol yr un y tro hwn, canlyniad yr union fel y gem gyntaf rhwng y ddau dim ym mis Hydref diwethaf. Hefin oedd y sgoriwr, ac yntau yn rhwydo o ganlyniad i gic rydd gelfydd gan Gareth Huws o'i hanner ei hun. Yn hwyr yn yr ail hanner y sgoriodd Tongwynlais, ond rhaid cydnabod mai gem gyfartal oedd y canlyniad tecaf.

Dyma felly gloi'r tymor gyda dau bwynt yn lle'r pedwar pwynt posibl, a hynny yn rhow cyfanswm o 32 o bwyntiau i ni am y tymor - tymor llwyddiannus felly a Chlwb Cymric yn darfod yn y pedwerydd safle yn y gynghrair. Mewn ffigyrau moel, dyma'r ystadegau am dymor 1980-81 :

Chwarae 26 Ennill 11
Cyfartal 10
Colli 5

Goliau: O Blaid 55
Yn Erbyn 45

Prif sgoriwr y Clwb - Wyn Roberts (12 gol).

Ie, eithaf llwyddiannus fe sylwch - dim ond pum gem a gollwyd ond yr och o sylweddoli fod deg gem gyfartal wedi eu chwarae - beth tybed fyddai ein tynged pe buasem wedi ennill eu hanner?

Llongyfarchiadau i'r ddau dîm ar frig yr Adran ac a fydd yn esgyn i'r Adran Gyntaf y tymor nesaf sef Rhymni a St. Patrides (dau dim a fu'n gyfrifol am ein curo dair gwaith yn ystod y tymor). Llongyfarchion hefyd i Wyn, yn ei dymor cyntaf fel canolwr a phrif ymosodwr, yn rhwydo yn amlach na neb - bu'n frwydr dda a chyson - diolch Wyn. Rhaid hefyd gydnabod presenoldeb Dewi ein golgeidwad yn ystod y tymor - heb golli yr un gem o'i ddechrau i'w ddiwedd - mi fuasai'n arswydus meddwl am chwarae heb Dewi yno rhwng y pyst. "Da was da a ffyddlon".

Tymor gweddol ddaeth i ran yr ail dim, Aelwyd yr Urdd, yng Nghynghrair Gyfunol Caerdydd eleni, a chafwyd 16 pwynt yn gyfanswm ar ddiwedd y tymor. Rhaid cofnodi buddugoliaeth bwysig yn wythnosau olaf Ebrill yn erbyn Wells United a'r Freebooters, o bump gôl i ddwy, a gem gyfartal o ddwy gôl yr un yn y gem olaf un yn erbyn yr Eglwysnewydd. Dyna felly ddarfod ar nodyn calonogol a phethau yn argoeli'n dda ar gyfer y tymor nesaf.

Yn olaf, gair o ddiolch i bawb sydd wedi cynrychioli Clwb Cymric ac Aelwyd yr Urdd ar y cae cicio neu fel swyddog - heb yr ymdrech yma ni fuasai tim i hyrwyddo Cymreictod ar feysydd y brifddinas.


Ymlaen felly at dymor newydd yn hyderus, bydd yr hen wynebau yn ol ond mae angen gwaed newydd ac mae croeso cynnes i unrhyw un sydd am arddangos ei ddawn i ymuno a ni yn y gorlan bryd hynny.

Tan hynny, rhaid gofyn cwestiynnau na wn i eu hatebion ar hyn o bryd.
Tybed a fydd Gareth Huws yn ymddangos yn lliwiau'r Clwb y tymor nesaf? (Tybed a fydd Morfydd yn gadael iddo?)
Tybed beth fydd tynged Rhys Fon?
Tybed a gaiff Dewi fwy o fedalau?
Sawl cic gosb a wnaiff Rob ei rhoi i ffwrdd?
A wnaiff Eynon sgorio mwy na dwy gol?
Tybed a wnaiff rhywun gartwn o Cen?

Rhodri Gwyn Jones.



# Y CROESAIR ~ Ap Lewsyn    RHIF 14



# RHODD U.C.A.C.

Derbyniodd yr uned i blant dan anfantais meddyliol sy yn Bryntaf y swm anrhydeddus tu hwnt o £200 oddi wrth UCAC - sef Cronfa Goffa G.J.Williams a neilltuwyd yn arbennig ar gyfer y pwrpas hwn. Mae athrawon a rhieni'r plant am ddiolch o galon am y cyfraniad mawr hwn tuag at addysg eu plant.

Mae'r Awdurdod Addysg o hyd, er bod yr arbrawf i barhau am flwyddyn o leiaf eto, yn gwrthod ei gydnabod fel uned. Maent o hyd yn mynnu mai mympwy y rhieni sy'n hawlio addysg Gymraeg i'w plant. Anodd meddwl nad yw addysgwyr sy wedi bod i mewn i'r uned a gweld awyrgylch hapus yr ysgol heb son am gynnydd addysgol y plant yn fodlon cydnabod mai trwy gyfrwng y Gymraeg yng nghwmni cyfoedion o Gymry yw'r ffordd orau i addysgu'r ddau fachgen sy dan sylw. Diolch i UCAC am gofio amdanynt a gwneud cyfraniad mor hael.

CROESAIR RHIF 14 :

Ni ellir cynnig gwobr y tro hwn, ond gwahoddir ein darllenwyr chwim eu meddwl i anfon datrysiad. Cyhoeddir enw (neu ffugenw, os mynner) pob un a enfyn ddatrysiad cywir cyn yr a Dinesydd Gorffennaf i'r Wasg. Y cyfeiriad yw 13, Rannoch Drive, Cyncoed, Caerdydd.

DATRYSIAD CROESAIR RHIF 13

Ar Draws:

9. RECORD-I-AD; 10. WYRES; 11. EBOL-ION; 12. FARNAIS (fin Sara); 13. CHWEDL; 14. CERFIED-IG (gref Dic ei); 16. CLIN-DARDDACH DRAIN; 19. CHWALFA-OEDD; 21. ENFYS; 22. DEFFROAF; 23. TARANER (moliant ar enau'r miloedd); 24. ADWYO; 25. YR AFON GWY.

I Lawr:

1. ARDDERCHOCACH; 2. Y CROTESI; 3. TRE-I-GL; 4. TIWN; 5. EDIFARHAODD (difaodd a her); 6. CHWYRNU; 7. TRIAWD; 8. ISIS; 14. CERDDORFEYDD; 15. GONEST-RWYDD (gwydd estron); 17. DIFRODOL (frolio D.D.); 18. ADFYNEGI; 20. ANFFAWD; 21. EIRIOL; 22. DIAU; 23. TRAS

CROESAIR Y DINESYDD, Rhif 14

Ar Draws

1. Drygionus yw effaith rhoi dwy bedol a charped a bachyn cig yn eu lle (9)
9. Cartref Ellis Wynne wedi ei wyrdroi (7)
10. Mae'r darn ene o Glwyd yn gallu bod yn reit siarp (7)
11. A gafodd y ferch hon ei deor o dan fanhadlen Ffrainc?(7)
12. Bydd rhain wrthi'n dad-ansoddi gydol awr y rhaglen (9)
14. Bachgen gwyn ei fam wedi moedro o'i dad (yn ôl M) (8)
15. Pwnc llosg? (6)
17. Mae'r dirprwy-gadeirydd un tôn yn is na'r llywydd yn y raddfa (7)
20. Gogwydd sydd ymhen blaen y parthau hyn (6)
23. Difwyno bob yn ail yn sêt car ein Llinos (8)
25. Crachach ffroenuchel sydd yn sôn am ddibyn dyrys â dim ynddo (9)
26. Gwaith crwydrol y mae ambell un yn ei wneud ar ei fodur (7)
27. "Ni syfl o'i le, nid .. . .... yw" (2,1,4)
28. "Yn wir y dywedaf i chi, ....... eich troi chwi a'ch gwneuthur fel plant bychain...." (nid y cyfieithiad newydd)(7)
29. Sêl-ogion? Mae' nhw'n gwerthu lot (9)

I Lawr

2. Mae ei fyd ef ar wasgar yn y stydi (7)
3. Codir hwn gan dy adael di yn syn (7)
4. Gwasgerir cibau o gwmpas G. a'i cheffyl, a hithau yn dangos awydd i "ddod ymlaen". (8)
5. Y mae R.S. Thomas yn fardd mawr, ond yn y dechrau mae'n tindroi yn ddigynllun. (Maddeued y gŵr mawr inni am enllib i bwrpas cliw) (6)
6. Doedd Cymru ddim yn drefnus nes dod i gyfaddawd. (9)
7. Rhai bychain yn Affrica (a Phrydain) (5,2)
8. Dangos dannedd yn gas wrth stwrio rhan o ynys yr ugain mil â blaen y gansen (9)
13. Ni wiw i'r Cymry sôn am undeb, ag ymrafael yn eu plith (7)
15. Cafwyd trafferthion yn heli ton ystormus (9)
16. Gwelir dyn wedi ei greu o'r newydd, gydag ysbryd o Gwm Tawe ymhlith 51 ynghanol y môr (9)
18. "Daliwch i'w cymryd", medd y gwr sy'n iachau. (1,8)
19. Fe gawn fwrdd i werthu mewn ffest ond inni edrych yn graff (7)
21. Mynegwn ddymuniad wrth weddnewid un di-wêd (7)
22. Mae'r rhedegydd yn hysbys i'r neb a fo'n gwylio (4,3)
24. Cefais wers ganddo a throais yn ffwndrus i'w ganfod (6)

# NODION HEOL CRWYS

Bydd angen arian mawr, miloedd lawer, i ddiogelu dyfodol Capel Heol y Crwys. Rhoddwyd cyhoeddusrwydd droeon i stad yr adeiladau presennol, a rhoddwyd her i bob ardal lle mae'r aelodau yn byw i godi rhyw £2,000.

Er mwyn chwyddo'r gronfa yn ardal PENYLAN (lle mae'r Gweinidog yn byw) rydyn ni am drefnu taith dan ofal y Parch. Cynwil Williams i ISRAEL, a manteisio ar ei gysylltiadau ef yno, a'i brofiad fel Arweinydd diogel. Bu yno rhyw hanner dwsin o weithiau, a bellach mae wedi arwain rhyw 500 o bobl ar draws y Tir Sanctaidd. Ef a ddewiswyd i arwain yn agos i gant o Ferched y Wawr yno adeg y Pasg 1979.
Dyma gyfle rhagorol i aelodau'r CYFUNDEB, ac eraill, i roi cymorth i Eglwys a fu'n gartref i gannoedd o Bresbyteriaid ieuainc yng Nghaerdydd dros y blynyddoedd. A dyma gyfle i chwi fyddai'n caru ymweld â'r Wlad Sanctaidd, ac a addunedodd fynd yno rhywdro. Gellwch deithio i Gaerdydd a threulio diwrnod yn y brifddinas cyn mynd; a noson ar ol bod yn Israel. Trefnir llety i chwi am bris rhesymol gyda'r aelodau, a throsglwyddir yr arian i'r GRONFA.
Bydd awyren arbennig yn codi'r teithwyr ym Maes Awyr Caerdydd ar Fedi 16eg, 1981. Treulir y tri diwrnod cyntaf mewn gwesty braf ar lan Llyn Galilea, a gweddill yr wythnos yn Jerusalem mewn gwesty o'r un safon. Bydd bysiau ar gael i gludo'r teithwyr o gwmpas y wlad, a threfnir gwibdeithiau.

Os ydych am dreulio wythnos yn Israel ganol Medi, anfonwch am fanylion at un o'r rhai â ganlyn:
Mrs. Barbara Evans, 4 Earl's Court, Penylan,Caerdydd.
Mr. O.E. Jones, 57 Tydraw Rd., Caerdydd.
Mr. Dan Roberts, 146 Penylan Road, Penylan, Caerdydd.
Miss Nans Jones, 7 Melrose Ave. Penylan, Caerdydd.

Anfonwch amlen a stamp.

Os yw'n well gennych ffonio, yna codwch y ffôn rhwng 7 a 9 o'r gloch:

Nos Lun: Nans Jones (485956)
Nos Fawrth: Dan Roberts(487214)
Nos Fercher: Barbara Evans (494376)
Nos Iau: O.E. Jones (490287)

Brysiwch er mwyn i ni gwblhau'r trefniadau.

RHAID INNI GAU'R RHESTR CYN 27 MEHEFIN, 1981

# NODION EBENEZER

Dydd Sadwrn, yr 16eg o Fai, cynhaliwyd ysgol undydd yn Eglwys Ebeneser,Caerdydd, i drafod yr Atgyfodiad. Dyma'r tro cyntaf i rywbeth o'r fath gael ei gynnal yn Ebeneser, ac yn ol yr ymateb, cawn weld rhagor o ysgolion undydd tebyg yn cael eu cynnal. Roedd rhaglen y dydd yn llawn, o'r cofrestru am 10.30 y bore, hyd at y te am 5.00 o'r gloch y prynhawn.Gan fod cymaint o bobl wedi dod at ei gilydd roedd yr amser a roddwyd heibio ar gyfer coffi yn ddefnyddiol i ddod i adnabod ein gilydd ac wrth gwrs, gweld lle'r oedd pawb yn mynd i addoli.

Pan ddaeth amser yr anerchiad cyntaf, cyflwynwyd y siaradwr, y Parch. Sulwyn Jones, gan weinidog yr eglwys, y Parch. Geraint Tudur. Testun y siaradwr oedd Yr Atgyfodiad fel ffaith Dangoswyd yn eglur ac yn syml trwy gyfeirio at yr Ysgrythur, bod yr Atgyfodiad wedi digwydd, a'i fod yn gwbl ganolog i'n ffydd. Pedwar prif bwynt a roddwyd gan y siaradwr, a dywedodd bod y pwyntiau hyn yn cael eu cadarnhau gan ymwybyddiaeth yr unigolyn o'r Arglwydd Iesu Grist yn Waredwr personol iddo. Cafwyd trafodaeth frwd wedi hyn a ysbardunwyd gan y testun ei hun a chan wyleidd-dra a dull arbennig y siaradwr. Parhawyd gyda'r sgwrsio drwy amser cinio.

Wedi'r sgwrs, y brechdanau, a'r gorffwys, yr oeddem ni i gyd yn barod am ragor o ddanteithion. Cyn cael y rheini, roedd trafodaeth o werth yr ysgol undydd wedi bod, a phawb yn unfryd y dylid cynnal un eto. Am awr wedyn, dangosodd Mr. Arfon Jones sleidiau o'r ffilm Iesu o Nasareth. Ynddynt adroddwyd hanes digwyddiadau'r wythnos ddiwethaf ym mywyd yr Iesu yn arwain tuag at y Pasg. O gerddoriaeth Delwyn Sion i lais y gweinidog ac Arfon, gellid dweud bod y cyfan yn asio'n berffaith. Ond yn ein mwynhad, roedd euogrwydd, bod yn rhaid i'r Iesu ddioddef marwolaeth mor erchyll fel y gwnaeth, drosom ni.

Wedi'r egwyl, daeth yr ail siaradwr, y Parch T. Arthur Pritchard, i drafod Arwyddocad yr Atgyfodiad. Yr oedd ei arddull yn hollol wahanol i'r siaradwr blaenorol ond yr un oedd ei neges. Seiliwyd ei drafodaeth ar 1 Corinthiaid, adnod 17, a chafwyd neges herfeiddiol ganddo ynglyn ag oblygiadau yr Atgyfodiad. Wrth egluro'r Ysgrythur inni, roedd y siaradwr hwn yn dangos dylanwad yr Atgyfodiad heddiw, ym mywydau Cristnogion. Yn dilyn, cafwyd cyfle i drafod ac yna gyfarfod gweddi agored. Nid oedd gorfodaeth ar neb i weddio, dim ond cymhelliad yr unigolyn i roi diolch i Dduw am bob bendith a gafodd Wrtho ar y Sadwrn hwnnw. Daeth y diwrnod i ben ar ol te am 5.00 o'r gloch.

Nid ysgol undydd oedd hon lle'r oedd pawb yn gwisgo eu hwynebau dydd Sul. Roedd yno lawenydd gwirioneddol o'r plentyn ieuenghaf i'r oedolyn hynaf a hynny am fod yr Atgyfodiad yn ffaith ym mywydau y Cristnogion a oedd yno. Ni allai neb fod wedi gadael y festri dydd Sadwrn heb ymdeimlo a'r brwdfrydedd a ddaeth o'r ysgol undydd ac awydd i rannu'r newyddion da ag eraill. Crynhoir yr ymateb yn gyfan yng ngeiriau un a oedd yno -
HALELIWIA !

Lowri Dafydd.

---

Dyma lun rhai o blant Ysgol Feithrin yr Eglwysnewydd gyda'u lluniau o'r Ddraig Goch. Maent ar gefn lori, yn mwynhau carnifal pentref yr Eglwysnewydd haf llynedd. Cawsont ail wobr am wisgo'r lori ac maent yn edrych ymlaen at gystadlu eto eleni - hysbysrwydd da!



---

Mae Emyr, un o blant bach hoffus Dafydd a Glesni Williams yn dioddef yn enbyd o glefyd y croen, ecsima, a bu ef yn yr ysbyty. Bu'r holl deulu yn cymryd eu tro i ofalu am yr un bach a gobeithiwn yn wir y caiff esmwythder.

Mae aelodau Heol y Crwys yn gofidio am iechyd eu Gweinidog. Aethpwyd ag e yn ol yn gyflym iawn i'r ysbyty ar ol ei ryddhau y tro diwethaf. Gobeithiwn gael newyddion rywfaint yn well cyn bo hir.

Mae Catrin Jarman, sy'n gweithio yn y Bwtri yn Sain Ffagan ar hyn o bryd yn dost yn Ysbyty'r Mynydd Bychan. Dymunwn lwyr wellhad iddi hi hefyd.

# LLYWODRAETH LEOL DE MORGANNWG

Yn yr Etholiad Cyngor Sir, fis Mai, yn Ne Morgannwg, fe etholwyd y Parchedig Robert H. Morgan, ficer plwyf Glan Elai, Caerdydd yn gynghorydd Llafur. Ef hefyd fydd arweinydd y Cyngor. Yma mae darllenydd o'r Dinesydd yn siarad ag ef am ei waith fel Gweinidog yn yr Eglwys yng Nghymru ac am ei ddyletswyddau newydd fel Arweinydd y Cyngor Sir:

Dinesydd: Rydych chi'n ficer ar un o blwyfi prysuraf Cymru. Ar yr un pryd rydych chi newydd gymryd drosodd yr awenau fel Arweinydd yn un o siroedd pwysicaf Cymru. Sut fedrwch chi wneud cyfiawnder a'r ddwy swydd feichus hyn?

R.H.M.: Rwyf yn gweld y ddwy swydd yn gorgyffwrdd i raddau helaeth.Fe ddylai Offeiriad y plwyf fod yn arweinydd yn y gymdeithas ac yng nghanol bywyd a chyda help fy nghiwrad does gennyf ddim amheuaeth y gallaf wasanaethu y gymdeithas yn effeithiol.

Dinesydd: Sut daethoch chi i ymddiddori gyntaf ym myd llywodraeth leol?

R.H.M.: Mae gan yr Efengyl Gristnogol arwyddocad gymdeithasol arbennig iawn, oherwydd ei phrif athrawiaeth yw ar i ni garu ein gilydd. Gwleidyddiaeth yw'r offeryn sy'n rhoddi effeithiolrwydd i'r cariad hwn tuag at ein cymdogion. Fe ddechreuais ymddiddori ynddo oherwydd yma, yn Nhrelai, sylweddolais mai gwleidyddiaeth allai gynnig yr ateb i anghenion yr ardal. Os nad oedd gan yr Eglwys yr adnoddau i gyfarfod a'r anghenion hyn, yna rhaid oedd gweithredu yn wleidyddol.

Dinesydd: Mae cysylltiad personol agos gennych eisoes ag addysg trwy gyfrwng y Gymraeg. Sut byddwch chi'n gweld addysg Gymraeg yn datblygu yn y Sir?

R.H.M.: Oes, mae gennyf bedwar o blant yn derbyn eu haddysg trwy gyfrwng y Gymraeg yn ysgolion y Sir, ac yn Llanhari, a chredaf mai yn yr ysgolion Cymraeg y ceir y brif obaith o dderbyn addysg Gymraeg effeithiol. Am genedlaethau bellach fe ddysgwyd yr iaith Gymraeg yn ein hysgolion Saesneg ond ysywaeth ar wahan i eithriadau disglair, bach iawn o ddylanwad a wnaed ganddynt ar y cyfan.Cytunaf a Eric Evans o'r Uned Iaith Genedlaethol mai'r ffordd orau i gael canlyniadau yw i ni ganolbwyntio ein hadnoddau ar yr ysgolion Cymraeg ac ar unedau dwyieithog fel Landsdowne a Heol Llanishen Fach.

Dinesydd: Yn y 'Daily Telegraph' yn ddiweddar fe adroddir amdanoch yn cyfeirio at Blaid Cymru fel 'spent force'. Beth fydd eich agwedd yn awr tuag at yr aelod newydd o'r Blaid ar eich Cyngor?

R.H.M.: Mae Plaid Cymru wedi dirywio'n ddifrifol yn ddiweddar, - efallai fel canlyniad i fethiant y Refferendwm. Er hynny, rwyf yn ystyried ei bod yn blaid radical a sosialaidd ei hagwedd ar y cyfan, a gobeithiaf gael cefnogaeth a chydweithrediad oddi wrth y cynghorwr newydd o Ddinas Powys.

Dinesydd: Mae Cyngor Sir Dyfed yn ddiweddar wedi gwrthod derbyn lleoliad o unrhyw arfau niwclear yn eu sir. Beth fydd eich safbwynt chi ar y cwestiwn pwysig hwn?

R.H.M. Rwyn cytuno a nhw ac rwyn gobeithio y bydd Cyngor Sir De Morgannwg yn cefnogi'r cynnig i wrthod lleoli arfau niwclear yn y sir. Yn bersonol rydw i o blaid di-arfogi unochrog.

Dinesydd: Mae llawer yn poeni am ostyngiad mewn safonau addysg yn ein hysgolion. Oes yna wirionedd yn hyn, a beth fedrwch chi fel Cyngor wneud i atal y fath ostyngiad?

R.H.M. Mae'r gostyngiad mewn safonau yn gysylltiedig i raddau gyda'r gostyngiad mewn adnoddau ariannol, yn enwedig mewn addysg 'remedial' Ein bwriad yw atal y gostyngiad hyn ac rydym wedi cynghori ein swyddogion i'r perwyl hwnnw.

Dinesydd: I orffen, allwch chi awgrymu testun addas i fyfyrio arno wrth ymgymryd a'ch swydd newydd?

R.H.M.: Mae llyfr Ecclesiastes yn llawn o gynghorion da, megis (mae'r Saesneg yn rhoi ystyr lawnach na'r Gymraeg) "There is no one on earth who does what is right all the time and never makes a mistake" neu, "The more you worry the more likely you are to have had dreams, and the more you talk the more likely you are to say something foolish". Neu lyfr y Diarhebion "A soft answer turneth away wrath", a nifer eto o'r Bregeth ar y Mynydd. Ond efallai wrth wynebu ar yr oriau o gyfrifoldeb o'm blaen, at y Salmau byddaf yn troi fwyaf. Felly, beth am adnod gyntaf Salm 46, "Duw sydd noddfa a nerth i mi, cymorth hawdd ei gael mewn cyfyngder".

## LLONGYFARCH

Dymunai'r Dinesydd estyn ein llongyfarchiadau cynhesaf i Mr. Emyr Currie-Jones. Gwyddom y bydd yn arweinydd cadarn i'n cynrychioli ar Gyngor De Morgannwg. Ein dymuniadau gorau iddo.




Mae'n amlwg fod ymdrechion disgyblion Glantaf yn ystod dyddiau tywyll y gaeaf wedi dwyn ffrwyth. Daeth 34 o wobrau yn adran Celf a Chrefft i'r ysgol i sicrhau mai Glantaf a enillodd tlws Celf a Chrefft Eisteddfod yr Urdd eleni i ysgolion uwchradd.

Tybed a fu'r llifogydd ar y Taf gerllaw yr ysgol yn gyfrifol am wobr neu ddwy yn yr adran ddyfrliw?

Holl fuddugwyr ardal y Dinesydd y tro nesaf.

# LLYFR PHYLLIS A MERÊD

ADOLYGIAD O

"CANEUON GWERIN I BLANT"

Detholwyd gan Phyllis Kinney a Meredydd Evans.

Cyhoeddwyd y gyfrol hon gan Gymdeithas Alawon Gwerin Cymru fel rhan o'i braint a'i dyletswydd, ond Phyllis a Merêd fu'n slafio gyda'r gwaith - a slafio oedd o hefyd - i chwilota a dethol, ac wedi'r dethol y gwaith manwl a blin o osod pob sill, pob nodyn a phob d r m yn ei le. Gwn bod misoedd o lafur cariad, ond llafur caled iawn wedi mynd i lunio'r gyfrol hon.

Dyma'r tro cynta, ag eithrio cyfrol Hwiangerddi J.Lloyd Williams, inni gael casgliad cynhwysfawr fel hyn o fewn yr un clawr. Amcan y gyfrol hon yw trosglwyddo cyfoeth o alawon gwerin i blant Cymru heddiw ac yn y dyfodol - ond peidied neb a chael ei gamarwain gan y teitl "Caneuon Gwerin i Blant". Mae 'na stôr o ganeuon ynddi i bawb o bob oed - yn unigolion a grwpiau. Mae 'na 65 o ganeuon ynddi, llawer ohonyn nhw'n gyfarwydd iawn a nifer o rai diddorol fydd yn "newydd" i lawer, rhai fel 'Dau lanc ifanc' a nifer dda sydd yn hwyl i'w canu.

Sonir yn y rhagair na fentrwyd i roi cyfeiliant oherwydd cost ac awydd i gynnwys cynifer ag y bo modd o ganeuon. Fy hun, mae'n well gen i weld caneuon gwerin yn cael eu hargraffu heb gyfeiliant - dyna'r ffordd agosa posib i'r dull traddodiadol o drosglwyddo, sef ar lafar o genhedlaeth i genhedlaeth. Mae pob alaw werin yn rhodd werthfawr o'r gorffennol ac fe all y canwr ddewis 'i canu nhw'n ddigyfeiliant neu i lunio cyfeiliant yn ôl ei chwaeth bersonol ei hun. Dyna sy'n braf amdanyn nhw - ni sy' pia nhw, ac mi all rhywun ddehongli fel ag y mynno. Rwy'n hoffi diwyg y cyfrol, 'i symylrwydd hi, a chlirdeb y gerddoriaeth, y geiriau a'r solffa.

Syndod i mi oedd sylweddoli cymaint o'r alawon sydd yn y mesur $\frac{6}{8}$, y mwyafrif - ac yna y rhai sydd yn y mesur $\frac{2}{4}$ - y ddau fesur naturiol i blentyn eistedd ar lin ei fam a hithau'n taro'i throed a siglo'r plentyn yr un pryd fel y gwnawn ni efo Gee Ceffyl Bach. Bydd croeso mawr i'r gyfrol yma gan y rhai hynny sy'n gyfarwydd a'r caneuon, ond mi fydd yn fendith o'r mwya i Gylchoedd Meithrin ac Ysgolion Cynradd ac Uwchradd, sy'n ymdrechu i drwytho plant o gartrefi di-Gymraeg yn yr iaith. Pa well ffordd na dysgu'r rhain iddynt. Dylid gweld copi o'r gyfrol hon ym mhob Cylch Meithrin a phob ysgol (ysgol Gymraeg ai peidio). Diolch, Phyllis a Merêd - a melys moes mwy!

---

# TRYSOR O LYFR

YR ENFYS DRWY Y GLAW ac Ysgrifau Eraill, gan Gwilym Morris, Tŷ John Penry, Abertawe. 168tt. £3.30.

Cafodd pobl Caerdydd a'r cylch gyfle i adnabod y Parch Gwilym Morris pan oedd yn weinidog ar eglwys Annibynnol Bethlehem, Gwaelod y Garth, lle y daeth ym 1947, yn olynydd teilwng iawn i'r Parchedigion R.G. Berry ac R.T. Gregory. Cyn hynny yr oedd wedi bod yn gwasanaethu ym Mhisgah a Phant y Crugiau, Ceredigion (1935-40) a Horeb, Penydarren (1940-47). Symudodd o Waelod y Garth ym 1968 i gymryd gofal eglwys Bethel, Caerffili, lle y bu hyd ei ymddeoliad ym 1977. Ar hyn o bryd y mae ef a'i briod yn byw yn Nant-ddu, Caerffili.

Mae llawer o'r ysgrifau hyn yn cynnwys ei atgofion am ei ddyddiau cynnar yn Hirwaun ac am gymeriadau yn y cylchoedd y bu'n gwasanaethu ynddynt. Mae'r rhain yn dangos dawn lenyddol yr awdur ar ei gorau, ac y maent yn ein hatgoffa o lyfrau fel Hen Wynebau (D.J.Williams) a Hen Ddwylo (Llwyd Williams). Caiff pawb sy'n eu darllen flas ar yr ysgrifau am 'Twm', 'Shoni', 'Harri'r Papurwr', 'Yr Inspector' a'r 'Cyhoeddwr', i sôn am rai yn unig. A phwy na all werthfawrogi yr ysgrif arbennig iawn ar 'Y Ferch sy'n Aros Gartref'? Dyma fel y mae'n cloi yr ysgrif honno.

"Mae'n wir fod Uwch Feirniadaeth wedi cymylu peth ar ffenestri'r Nefoedd fel na ellir gweld yn glir iawn pwy sydd yno. Ac mae Uchel Galfiniaeth wedi hen gloi'r drysau yn erbyn rhai. Ond pwy bynnag sydd heb fod yno mi wn i fod un â'i lle yn sicr ac anrhydeddus - ie, y ferch oedd yn fodlon aros gartref."

Yn aml, ceir ganddo stori dda am ambell gymeriad, fel yr un am y Cyhoeddwr hwnnw yn Sir Aberteifi a wnaeth y cyhoeddiad syfrdanol hwn un Sul:

"Bydd yr Ysgol Sul am ddau,cwrdd gweddi am chwech. Mr. Morris fydd yma brynhawn Sul nesaf ac yn yr hwyr hefyd. Ond bydd hi o fawr gwerth iddo ddod os na fydd yma fwy nag sydd yma'r bore 'ma. Ble maen nhw? Fe allwn i saethu bwled i'r seti ar y chwith a lladd neb, onibai fod John Jones, Maerdy Forge yma fel arfer."

Ond y peth sy'n rhoi arbenigrwydd i'r ysgrifau hyn yw disgrifiad yr awdur o'r trawiad sydyn o'r parlys a gafodd bum mlynedd yn ol ac ddiwedd oedfa. Mae'n disgrifio ei ymateb i'r digwyddiad trawmatig hwnnw ac am ei ymdrech ef a'i deulu i ddygymod â'r ffaith ei fod yn rhannol ffaeledig mewn canlyniad. Hawdd yw ymdeimlo â'i ddewrder a'i ffydd. Un ffaith ryfeddol yw ei fod wedi mynnu teipio'r ysgrifau hyn ag un bys o'i law chwith. A dyma rai o'r pethau y mae'n eu dweud:

"Nid wyf yn gallu cerdded heb bwyso ar ffon neu fraich fy mhriod ffyddlon. Nid yw'r llaw dde o fawr gwerth i mi at deipio, ond diolch am law chwith sydd ym mhob peth yn cyflawni diffyg ei chymhares anffodus...Yr wyf yn siomedig ond nid yn chwerw. Mi wn yn awr beth yw dioddefaint; pregethu amdano yr oeddwn o'r blaen heb fawr ddim profiad. Y mae gennyf lai o gredoau nag erioed ond mwy o ffydd."

Darnau fel yna sydd yn gwneud darllen yr ysgrifau hyn yn brofiad i'w gofio. Os oes rhywrai yn ofni afiechyd a dioddefaint dylent ddarllen y llyfr hwn, a chânt hwythau, yng nghwmni'r awdur, weld 'yr enfys drwy y glaw'. Diolch iddo am gyfraniad clodwiw arall i gyfoethogi ein llên ac i'n hysbrydoli yn yr ymdrech i ddygymod ag anawsterau a'u concro.

W. Rhys Nicholas.

Bydd yn chwith gan garedigion y delyn yng Nghaerdydd glywed am farwolaeth Alwena Roberts (Telynores Ial). Bu'n ysbrydiaeth i do ar ol to o delynorion ifanc ac fe gyfranodd yn helaeth at ddatblygiad canu'r delyn yng Nghymru yn yr hanner can mlynedd diwethaf.

CYNHELIR CYFARFOD CYFFREDINOL GOGLEDD-ORLLEWIN CAERDYDD O BLAID CYMRU YNG NGHANOLFAN GYMDEITHASOL, YSTUM TAF, Y PARADE, YR EGLWYSNEWYDD, am 7.30 p.m., MEHEFIN 11eg.

## MERCHED Y WAWR

Nos Lun, Mai 21, cafwyd noson lwyddiannus, llawn o amrywiaeth. "Clych Atgof" oedd teitl y noson a daeth amryw o aelodau ymlaen gyda'u hatgofion. Cafwyd storiau o'r India, Hylin yn Awstria a hanes 'y nyrs' ar y cwch i Lydaw. 'Hen bethau' a ddaeth ag atgofion i rai fel y Beibl bach o'r flwyddyn 1630 a llun hysbysebu ffatri wlan Bryncir yng Ngwynedd - cysylltiad agos iawn a Merched y Wawr Caerdydd. Hoff lyfrau oedd gan eraill a daeth 'Deian a Loli' i'r wyneb unwaith eto yn union fel y daeth y 'faneg golledig'.

Yn ystod y noson ddiddorol yma rhaid rhoi pen at waith a dewis swyddogion y pwyllgor am y flwyddyn nesaf. Etholwyd: Llywydd: Mrs. Eirlys Davies; Trysorydd: Mrs. Maria Tucker; Ysgrifennydd: Mrs. Joan Bunford; Aelodau y Pwyllgor: Mrs. Marian Jones, Mrs. Mair Piette, Mrs. Ann Rees, Mrs. Catherine Jobbins, Mrs. Mair Haydn Jones a Mrs. Mair Elvet Thomas.

Gobeithiwn y gwelwn wynebau hen a newydd eto ym mis Medi.

Ar Fehefin 19, am 7.30, cynhelir CINIO BLYNYDDOL y Rhanbarth i AELODAU Merched y Wawr yng Nghastell Caerffili. Pris y tocyn, £6.50, ac mae angen yr arian erbyn y 5ed o Fehefin. Mrs. Catherine Jobbins a Mrs. Kathleen Wood sy'n gyfrifol am y tocynnau.

Urdd trosodd ymhen ychydig dros pythefnos. Gobeithio y byddwch wedi cofio honno ac wedi cael tamaid o ddwylo Merched y Wawr ardaloedd Castell Newydd Emlyn.


TRIP I'R ALMAEN

Cyfle ardderchog i ddianc o'r gwynt a'r glaw...

Rhowch gynnig ar ennill gwyliau braf yn haul y Cyfandir

YNG NGHYSTADLEUAETH NEWYDD

PAIS

ym mis Mehefin, Gorffennaf ac Awst

AR GAEL YN EICH SIOP LEOL


# ...HEN BLANT BACH

CYN-DDISGYBLION YSGOL BRYNTAF YN DATHLU CHWALU'R YSGOL YN BEDAIR YSGOL LED-LED Y DDINAS.

............

Fel mae darllenwyr Y Dinesydd yn gwybod yn iawn ryn ni erbyn hyn yn gallu ymfalchio y bydd yr Ysgol Gymraeg y buon ni'n ddisgyblion ynddi erbyn mis Medi nesaf wedi'i chwalu'n bedair ysgol led-led y ddinas. Mae nifer mawr o'r cyn-ddisgyblion wedi mynegi'r farn yr hoffem ddathlu'r digwyddiad hapus hwn trwy greu record o'n doniau ni ac o ddoniau presennol yr ysgol. Fel y dywedodd Mrs. Enid Jones Davies mae'n debyg y gall y record hon fod yn record hanesyddol sy'n dangos twf addysg Gymraeg yn y brifddinas o'i dechrau bach yn Sloper Road Grangetown i'r Bryntaf cyntaf yn Highfields, i Viramu a draw i'r adeilad parchus ond cwbl anaddas yn y Parade.

Cawsom air gyda Huw Jones, sy fel y gwyddoch yn gyn-ddisgybl, er mwyn cael sel bendith ei gwmni i'n recordio a gobeithiwn gael ser fel Geraint Jarman, Iwan Guy, Sian Hopkins a Huw Jones ei hun ar y record hefyd. Mae e'n cyd-weithio a ni ac yn rhoi pob hwb ymlaen inni yn y fenter. Mae e wedi cynnig dyddiad recordio sef Gorffennaf laf a'r 2il, bore'r laf yn Ysgol Bryntaf a'r gweddill yn Eglwys Dewi Sant.

Mae Mr. Tom Evans wedi cytuno y byddai'n ffordd hyfryd o ddathlu'r achlysur ac mae eisoes wedi addo helpu gyda'r gwerthu ac mae aelodau o'r staff yn mynd ati i sicrhau y bydd llawer o'r plant yn barod i recordio erbyn dechrau Gorffennaf. Mae Prifathrawon ac athrawon yr Ysgolion Cyfun, Glantaf a Llanhari wedi addo pob help ymarferol i recordio a gobeithiwn hefyd y bydd Ysgol Melin Gruffydd yn gweld ei ffordd yn glir i ddod i recordio. Mae cyfraniad pob ysgol yn allweddol yn y dathliad hwn.

Gobeithiwn hefyd ffurfio neu'n hytrach ail-ffurfio rhai o gorau'r cyn-ddisgyblion - Cor Telyn Caerdydd er enghraifft fel sail efallai a gweu o'i gwmpas y llu o gyn-ddisgyblion sy wedi bod wrth eu bodd yn canu gyda Beti Wyn Jones, Lisa Erfyl Jones. Do wir, cyn i Mrs. Beti Wyn Jones adael am Ganada fe ddaeth o hyd i deyrnged Ithel Davies i O.M. Edwards a theyrnged Tom Huws, Bardd y Goron, i Gaerdydd ar achlysur ei gwneud yn brifddinas a llu o ganeuon eraill.

Mynnwch gyfle i ddod i gwrdd a rhai o'r cyn-ddisgyblion yng Nghanolfan yr Urdd, nos Fawrth, Mehefin yr 2il, y nos Fawrth gyntaf ar ol Eisteddfod yr Urdd, am 7.30 o'r gloch i ganu ac i drafod cyfraniadau pellach i'r record. Os na allwch ddod cofiwch brynu'r record. Fe fydd yn llawn o leisiau cyfarwydd i'n bro ni ac yn ddogfen hanesyddol. Gan edrych ymlaen at gael cwrdd a chi eto.

## Y CWESTIWN

CYFEILYDD

Yn eisiau i Cantorion Creigiau Cor Cymysg 70 o leisiau.

Manylion pellach oddi wrth Caerdydd 611013

........

## - YR ATEB

YSGOL GERDD Y MYNYDD BYCHAN

Cynhaliwyd arholiadau yr Associated Board, Llundain, yng Nghaerdydd, a dyma restr o'r plant a fu yn llwyddiannus ar y piano:

Michael Jeffries, Gradd 6 (Ysgol Llanhari)
Bethan Dyfri Jones, Gradd 5 (Ysgol Llanhari)
Eleri Dyfri Jones, Gradd 3 (Ysgol Glantaf)
Anne Eleri Davies, Gradd 2 (Ysgol Bryntaf)
Sioned Mererid Guy, Gradd 2 (Ysgol Bryntaf)
Carys Mair Williams, Gradd 2 (Ysgol Bryntaf)

Disgyblion ydynt i Mrs. D.T. Guy. Llongyfarchiadau cynnes iddynt i gyd.

## DYCHWELYD

Mae'n newyddion arbennig o dda i drigolion Caerdydd fod llais adnabyddus ac un o blant y ddinas yn dychwelyd. Rym newydd glywed fod Havard Gregory, cyn-ddarlledwr enwog a brawd i Mair Elvet Thomas, Ysgrifenyddes Merched y Wawr erbyn hyn, wedi dod nol i weithio gyda Bwrdd Datblygu Cymru. Croeso mawr iddo. Fe glywson ni ef yn ddiweddar yn dal pen rheswm ar Hawl i Holi o Golegau Rhydychen.

# Y BWGAN ARIAN

## Adroddiad blynyddol
## gan
## Emrys Jarman, Trysorydd Y DINESYDD.

Daeth blwyddyn arall i ben - nid ar Nos Galan - ond ar ddiwedd mis Mawrth, sef blwyddyn ariannol Y DINESYDD. Bu'r flwyddyn yn llawn problemau, golygyddol, gweinyddol ac ariannol ond llwyddwyd i gynhyrchu a dosbarthu naw rhifyn yn lle'r deg a fwriadwyd, a gobaith y Pwyllgor Rheoli yw fod y papur yn dal i roi pleser a mwynhad i'r mwyafrif o Gymry Cymraeg y Brifddinas sydd yn ei ddarllen, er i ambell feirniadaeth a glywyd amdano o dro i dro.

Ar ddiwedd y flwyddyn ariannol hyd Mawrth 1980, ac ar ol cyfnod anodd oherwydd codi pris argraffu yn gyson, bu bron i'r papur beidio a dod allan. Pan ddechreuodd y DINESYDD rhyw £150 y mis oedd cost yr argraffu, ond erbyn Mawrth 1980 aeth i fyny i £329 y mis am 3,000 o gopiau yn lle'r 5,000 gwreiddiol! Cafwyd rhybudd fod y gost am godi i dros £500 y mis o Ebrill 1980 ac oherwydd hyn bu rhaid meddwl yn galed sut y byddai'n bosibl i'r Pwyllgor gael hyd i £5,000 y flwyddyn yn y dyfodol. Beth bynnag, cafwyd hyd i broses arall o argraffu am lai o gost, ond golyga hyn gryn lafur caled ar ran rhyw hanner dwsin o'r Pwyllgor Rheoli. Llwyddwyd oherwydd hyn i gynhyrchu'r papur am ryw £250 y mis. Ofnir na fydd yn bosibl yn nyddiau chwyddiant cyson i barhau heb i'r gost godi, ac felly teimlir nad yw'n annheg i'r darllenwyr wybod hyn, yn enwedig gan eu bod, y rhan fwyaf ohonynt, beth bynnag, yn ei dderbyn yn rhad ac am ddim.

Yn ystod y flwyddyn hyd ddiwedd Mawrth 1981 cafwyd diffyg o £189, i'w gymharu ag elw, os hwn yw'r gair cywir, o £120 yn ystod y flwyddyn cynt. Efallai y byddai'r crynhodeb o'r cyfrifon isod am 1980/81 o ddiddordeb i rai ohonoch?

<u>Derbyniadau:</u>

| | |
|---|---|
| Rhoddion gan Unigolion | £546 |
| Rhoddion gan Gapeli,Eglwysi a Chymdeithasau | 127 |
| Hysbysebion | 548 |
| Elw Noson Codi'r To,Hydref 1980 | 252 |
| Llog o'r Banc | 60 |
| Grant oddi wrth Gymdeithas Gelfyddydau Deddwyrain Cymru | 600 |
| Cyfanswm Derbyniadau: | £2,133 |

<u>Taliadau:</u>

| | |
|---|---|
| Cost Argraffu | 2,225 |
| Stampiau, Argraffu Cyffredinol a Chostau Swyddogion | 75 |
| Manion | 22 |
| Cyfanswm Taliadau: | 2,322 |

Ar ddechrau'r flwyddyn bu gan y Pwyllgor Rheoli £628 wrth gefn yn y Banc, ond erbyn diwedd y flwyddyn aeth i lawr i £439, swm nad yw'n ddigon i dalu am ddau rifyn.

Yn ystod Hydref 1979 gwnaed apel gynhwysfawr at nifer o unigolion ac at bob Cymdeithas Gymraeg, gan gynnwys y Capeli a'r Eglwysi, ac yr un pryd gofynwyd am gyfraniadau rheolaidd drwy daliadau blynyddol archebion banc. Cafwyd ymateb da, a mawr yw diolch y Pwyllgor Rheoli, ond yr un pryd teimlwyd dipyn o siom nad oedd nifer a chyfanswm yr archebion banc yn fwy. Beth bynnag, llwyddwyd i roi nerth i sefyllfa ariannol Y Dinesydd am gyfnod, ac yn ogystal gellir yn awr ddibynnu ar gael dros £500 y flwyddyn yn gyson o gyfrifon banc ein darllenwyr i gyfrif banc y Dinesydd. Y piti yw nad yw'r cyfanswm yn fwy. Byddai gallu dibynnu ar £1,000 i £1,500 yn golygu hanneru neu chwarteru'r broblem cyllid!

Rhaid cydnabod cyfraniad Cymdeithas Gelfyddydau Deddwyrain Cymru a ddaeth i law ers rhai blynyddoedd. £600 ydoedd y llynedd, ond yn y pen draw ni ddylid dibynnu gormod ar dderbyn grantiau. Fe ddylai'r arian i gynnal papur bro Cymraeg ddod o bocedi'r Cymry sy'n ei ddarllen.

Dipyn yn siomedig hefyd fu gostyngiad y rhoddion yn 1980/81 wrth eu cymharu a 1979/80, yn enwedig y cyfraniadau oddi wrth y Cymdeithasau a aeth i lawr o £356 i £127.

Felly, gofynnwn i bawb nad yw wedi cyfrannu o'r blaen, neu sydd wedi anghofio gwneud ers tipyn, anfon siec, bach neu mawr, at ein Trysorydd, Mr. Emrys Jarman, 198 Hill Rise, Llanedeyrn, Caerdydd. CF2 6UN., a gwell fyth, er mwyn codi ei galon, gofyn iddo am ffurflen Archeb Banc i'w llenwi. Ar y llaw arall, gellwch roi cyfarwyddyd i'ch Banc eich hunan i dalu swm arbennig yn flynyddol neu yn fisol i Gyfrif Pwyllgor Rheoli y Dinesydd, Rhif 40985012, ym Manc Masnachol Cymru, 114-116, Heol y Santes Fair, Caerdydd. (Rhif y Banc 30-12-50). Os penderfynwch wneud hyn a fyddwch gystal a rhoi gwybod i'r Trysorydd am eich bwriad yr un pryd. Mae hyn yn bwysig.

I gloi, peidiwch ag anghofio y Barbeciw ym mis Mehefin. Bydd y Barbeciw yn gyfle i chwi fwynhau eich hun a chyfrannu i gyllid y Dinesydd.

